

Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

Rhifyn 467 • Mehefin 2016 • 50c

Drama'n ôl yn y Dyffryn?

Mae Cwmni Drama'r Llechen Las ar fin cael ei atgyfodi, ar ôl dros ddegawd o ddistawrwydd – ac mae cyfle i chi fod yn rhan ohono.

Mae cyfarfod cyhoeddus wedi'i drefnu yn Neuadd Ogwen, Bethesda am 7 o'r gloch nos Iau, 7 Gorffennaf er mwyn trafod ail-sefydlu'r Llechen Las.

Gwaddol 'Chwalfa'

Siân Esmor o Rachub ydi un o drefnwyr y cyfarfod. Roedd hi'n aelod o gast cymunedol Chwalfa, cynhyrchiad Theatr Genedlaethol Cymru yng nghanolfan Pontio fis Chwefror.

"Yn ystod wythnos ola'r perfformiadau, dyma rai ohonon ni'n dechrau trafod be' fydden ni'n ei wneud ar ôl i Chwalfa ddod i ben," meddai Siân. "Teimlo'r oedden ni y byddai'n biti petai popeth yn gorffen ar ddiwedd yr wythnos, a ninnau wedi cael cymaint o brofiadau gwych. Roedd cymaint o bobl ifanc dalentog yn y cast, a dyna ddechrau meddwl, be' am greu ein cynhyrchiad ein hunain y flwyddyn nesa', yn Nyffryn Ogwen?"

Pan ddaeth cast a chriw Chwalfa at ei gilydd ddechrau Mai i wyllo fideo archif o'r cynhyrchiad, roedd hi'n amlwg bod nifer o'r cast cymunedol, yn ieuenctid ac yn oedolion, yn teimlo'r awydd i wneud rhywbeth pellach.

"A dyna pryd y daeth Linda Brown ata' i a dweud bod Cwmni Drama'r Llechen Las yn dal i fodoli mewn enw, ac awgrymu 'mod i'n cael gair efo'r trysorydd, Neville Hughes, i weld be' fyddai'n bosib," ychwanegodd Siân. "Canlyniad y



Cast 'Tro'r Byrddau' – comedi un act gan Gwynfor (Caernarfon), 1997



Cast pantomeim 'Ogi Ogwan', 1984

trafodaethau hynny ydy'r cyfarfod cyhoeddus yma, ac mi faswn i wrth fy modd yn gweld criw da yn dod i Neuadd Ogwen ar y seithfed. Nid dim ond cast

Chwalfa fydd yn cael cyfle i fod yn rhan o'r cwmni newydd: cwmni i bawb yn y Dyffryn fydd o. Ac wrth gwrs, o ail-sefydlu'r cwmni, mi fyddwn ni'n chwilio am bobl i baratoi gwisgoedd, setiau, props, i weithio cefn llwyfan, i sgriptio, i greu cerddoriaeth, a phob math o bethau eraill. Mi fydd 'na groeso cynnes iawn i bawb."

Y Llechen Las

Cafodd Cwmni Drama'r Llechen Las ei sefydlu yn 1983, a bu'n perfformio pob math o gynhyrchiadau ledled y Dyffryn a thu hwnt am dros ugain mlynedd, cyn perfformio


am y tro olaf yn Eisteddfod Genedlaethol Eryri yn Awst 2005. Ymhlith cynhyrchiadau'r cwmni roedd pantomeimiau fel Ogi Ogwan, Cocos Cocos a Po-ha, dramâu byrion, dramâu tair act ac o leiaf un o weithiau Shakespeare.

I lawer, roedd y cwmni'n gyfystyr â'r ddiweddar Eurwen Llewelyn Jones, a fu'n ganolog i'r cwmni dros y blynyddoedd. Hi fyddai'n cynhyrchu llawer o ddramâu'r cwmni. Roedd y ddiweddar Rhiannon Rowlands hefyd yn rhan ganolog o'r cwmni, ac fe fu hi a Lynda Pritchard, Rachub, yn gyfrifol am ysgrifennu sawl pantomeim.

Un a fu'n perfformio mewn sawl cynhyrchiad, ac a oedd hefyd yng nghast cymunedol Chwalfa, ydi Gaynor Elis-Williams o'r Carneddi.

"Rydw i'n croesawu'r cyfle i ail-sefydlu'r cwmni," dywedodd Gaynor. "Rydw i wedi gweld colli'r Llechen Las. Mi gawson ni gymaint o gyfleoedd drwy'r cwmni pan oedden ni'n iau, ac mi fasai'n wych tasai pobl ifanc heddiw yn cael yr un cyfle."

Am fanylion pellach neu i fynegi diddordeb os na fedrwc ddod i'r cyfarfod, cysylltwch â Siân Esmor: (01248) 600427 neu sian_esmor@btinternet.com.



Tocyn aelodaeth Cwmni Drama'r Llechen Las

Calendr Llais Ogwan 2017

Lluniau ar gyfer Calendr 2017 i mewn cyn **DIWEDD GORFFENNAF 2016**, os gwelwch yn dda. Er mwyn rhoi digon o amser i gynhyrchu'r calendr. Bydd unrhyw lun o ardal Dyffryn Ogwen (gan gynnwys y Carneddau a'r Glyderau) yn cael eu hystyried. Lluniau (yn ddigidol, os yn bosibl) i Dafydd Fôn deifon@yahoo.co.uk

neu (os heb fod yn ddigidol, neu ar ddisg)
14/4 Stryd y Ffynnon, Gerlan, Bethesda LL57 3TR

EDRYCHWN YMLAEN I WELD EICH LLUNIAU

Panel Golygyddol

- Derfel Roberts**
☎ 600965
hylaw@btinternet.com
- Ieuan Wyn**
☎ 600297
cylch@tiscali.co.uk
- Lowri Roberts**
☎ 600490
l.roberts11@btinternet.com
- Dewi Llewelyn Siôn**
☎ 07940 905181
dewision@hotmail.co.uk
- Fiona Cadwaladr Owen**
☎ 601592
fionaowen28@gmail.com
- Siân Esmor Rees**
☎ 600427
sian_esmor@btinternet.com
- Neville Hughes**
☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com
- Dewi A Morgan**
☎ 602440
dewimorgan@live.co.uk
- Trystan Pritchard**
☎ 07402 373444
trystanrp1@gmail.com
- Walter a Menai Williams**
☎ 601167
waltermenai@yahoo.co.uk

Swyddogion

Cadeirydd:
Dewi A Morgan, Park Villa,
Lôn Newydd Coetmor,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3DT ☎ 602440
dewimorgan@live.co.uk

Trefnydd hysbysebion:
Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA
☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

Ysgrifennydd:
Gareth Llwyd, Talgarnedd,
3 Sgwâr Buddug, Bethesda
LL57 3AH
☎ 601415
garethllwyd197@btinternet.com

Trysorydd:
Godfrey Northam, 4 Llwyn
Bedw, Rachub, Llanllechid
LL57 3EZ ☎ 600872
godfreydnortham@hotmail.co.uk

Y Llais drwy'r post:
Owen G Jones, 1 Erw Las,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3NN ☎ 600184
post@llaisogwan.com

Golygydd y mis

Golygwyd rhifyn y mis hwn gan
Trystan Pritchard

Y golygydd ym mis Gorffennaf fydd
Siân Esmor Rees,
Gwenlais,
8 Bron Arfon,
Llanllechid,
LL57 3LW
01248 600427
E-bost: sian_esmor@btinternet.com

Pob deunydd i law erbyn **dydd Mercher,**
29 Mehefin, os gwelwch yn dda.
Plygu **nos Iau, 15 Gorffennaf**, yng Nghanolfan
Cefnfaes am 6.45.

Cyhoeddir gan
Bwyllgor Llais Ogwan
@Llais_Ogwan

Cysodwyd gan Elgan Griffiths,
elgangriffiths@btinternet.com
Argraffwyd gan y *Lolfa*

Nid yw pwyllgor Llais Ogwan na'r panel
golygyddol o angenrheidrwydd yn cytuno
â phob barn a fynegir gan ein cyfranwyr.

Llais Ogwan ar CD

Gellir cael copi trwy gysylltu â Bryn yn
swyddfa'r deillion, Bangor
01248 353604

Os gwyddoch am rywun sy'n cael
trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn
copi o'r Llais ar CD bob mis, cysylltwch
ag un o'r canlynol:

Gareth Llwyd ☎ 601415
Neville Hughes ☎ 600853

Mae Llais Ogwan ar werth
yn y siopau isod yn Nyffryn Ogwen:

Londis, Bethesda
Siop Ogwen, Bethesda
Cig Ogwen, Bethesda
Tesco Express, Bethesda
Spar, Bethesda
Siop y Post, Rachub

Archebu
trwy'r
post

Gwledydd Prydain - £20
Ewrop - £30
Gweddill y Byd - £40

Owen G. Jones, 1 Erw Las, Bethesda,
Gwynedd LL57 3NN
post@llaisogwan.com ☎ 01248 600184

Dyddiadur y Dyffryn

- Mehefin**
- 18 Te Mefus. Ysgoldy Maes y Groes,
Talybont am 2.00
- 23 Refferendwm Ewrop.
- 25 Bore Coffi Eisteddfod Dyffryn Ogwen.
Neuadd Ogwen 10.00 – 12.00.
- 27 Diwrnod Agored Cyfeillion Ysbyty
Gwynedd yn 29 Ffordd Ffrydlas.
10.00 yb – 10.00 yh
- 28 Cangen Plaid Cymru Dyffryn Ogwen.
Cefnfaes am 7.00.

- Gorffennaf**
- 02 Garddwest Tair Eglwys. Ficerdy
Pentir. 1.00 – 4.00.
- 04 Merched y Wawr Tregarth. Gwibdaith
i Ysbyty Ifan – arddangosfa
gwisgoedd yr Orsedd.
- 05 Te Mefus. Festri Bethlehem, Talybont,
am 7.00.
- 07 Sefydliad y Merched Carneddi.
Gwibdaith Addysgiadol.
- 09 Marchnad Ogwen. Neuadd Ogwen.
9.30 – 1.30.
- 09 Bore Coffi NSPCC. Caffi Coed y
Brenin. 10.00 – 12.00.
- 09 Gerddi Agored Pentref Llandygai.
10.00 – 4.00.
- 15 Plygu Llais Ogwan. Cefnfaes am 6.45.
- 16 Bore Coffi er cof am Eirian Jones
(tuag at Ward Alaw). Cefnfaes.
10.00 – 12.00.

Rhoddion i'r Llais

£5.00 Llewela O'Brien, Bangor, er cof
am ei mam, Catherine Mary
Thomas, (22 Maes Ogwen,
Tregarth, gynt) a fu farw ar 4
Mehefin 1978. Hefyd ei gŵr,
Vernon, a fu farw 19 Mehefin
2004.

£25.00 Er cof annwyl am Rhiannon
Rowlands, Tregarth a'r Gerlan
(gynt), a fyddai'n dathlu
penblwydd arbennig ar 29
Mehefin. Oddi wrth Arthur,
Olwen, Myrddin, Huw a'r teulu.

Diolch yn fawr

Llais Ogwan

I hysbysebu yn Llais Ogwan
Neville Hughes 600853
(nev_hughes@btinternet.com)



Llythyrau

Annwyl ffrindiau, ac unrhyw Gymdeithas sy'n ceisio llenwi dyddiadur yn llawn o nosweithiau difyr ar gyfer tymor 2016-2017

Y Nadolig yma fe fydd fy nghofiant i'r 'melys lais' ei hun, David Lloyd yn y siopau ddechrau Rhagfyr a 'dwi'n gobeithio teithio eto o ardal i ardal yn siarad am 'y tenor a'r deigr yn yn ei lais' rhwng mis Medi 2016 a mis Mai 2017, ac wrth gwrs fe gawn ni wrando ar y llais yn ogystal "Mae hi'n swnio'n noson ddifyr, Hywel" fe'ch clywaf yn dweud "ond faint fydd y gost?"

Gan fod y noson yn rhan o gynllun 'Awdur ar Daith, mae nawdd ar gael i fyny at 50%. Cost y noson yw £200 sy'n cynnwys costau teithio o Gaerdydd

Dyma ydi'r drefn. Os ewch chi ar wefan Llenyddiaeth Cymru, Awdur ar daith fe

welwch sut mae gwneud cais am y nawdd. Awgrymir eich bod yn gwneud hyn mor fuan â phosib.

Fe fyddwch angen manylion amdanaf. Enw: Hywel Gwynfryn, 53, Heol Wingfield, Eglwysnewydd, Caerdydd. Cyfeiriad ebost: hywel.gwynfryn@bbc.co.uk. Teitl y Noson: Melys lais David Lloyd-Rhif cyswllt (rhag ofn) 07968889357

Y drefn wedyn ydi fod siec yn cael ei thalu ar y noson am £200 (sy'n cynnwys costau teithio), ac yna fe ddaw arian y nawdd i chi ymhen yr wythnos.

Gobeithio y cawn ni gyfarfod yn sŵn melys lais David Lloyd yn canu Hyder, Lausanne, Sul y Blodau ac Bugail Aberdyfi.

Yn gywir,
Hywel Gwynfryn

Annwyl ddarllenwyr Llais Ogwan, Mae hi'n anrhydedd fawr cael fy ethol yn Aelod Cynulliad dros Aron. Mi fyddai'n gweithio'n galed dros yr ardal lle rydw i'n byw, a lle cefais fy magu. Mi fyddai'n gweithio'n galed ar ran pawb - y rhai na bleidleisiodd imi, a'r rhai a wnaeth - fel ei gilydd. Fel ymgeisydd newydd, roeddwn yn hapus iawn i dderbyn bron i 11,000 o bleidleisiau a bod 55% o'r rhai a bleidleisiodd wedi fy newis i'w cynrychioli.

Diolch yn fawr iawn ichi am eich cefnogaeth wych.

Wna i ddim eich siomi. Gwaith tim wedi ei arwain gen i oedd yr ymgyrch, gyda chefnogaeth ryfeddol gan gannoedd o wirfoddolwyr a weithiodd mor galed. Diolch yn fawr iawn iddyn nhw, ac mae diolch arbennig i drefnydd gweithgar Plaid Cymru, Richard Thomas a fy asiant, y Cynghorydd Dafydd Meurig. Diolch hefyd i 'nheulu a'm ffrindiau sydd wedi bod yn ysbrydoliaeth imi.

Wrth gychwyn fy rôl newydd, mae fy mlaenoriaethau yn aros yr un fath: cael mwy o staff i'r

gwasanaeth iechyd, creu mwy o swyddi'n lleol, buddsoddi yn yr A55 a phwyso am wasanaeth rheilffordd gwell. Ar frig fy agenda mi fydd gwneud yn siŵr fod y Gogledd yn cael ei chyfran deg o fuddsoddiad. Mi fydda i'n cynnal cymorthfeydd yn rheolaidd ac felly cysylltwch a mi ar bob cyfrif os galla i fod o gymorth efo problemau unigol - 01286 - 672 076.

Diolch o galon i chi gyd,
Sian Gwenllian
Aelod Cynulliad Arfon
Sian.gwenllian@cynulliad.cymru

Annwyl Olygydd, Bu 2015 yn flwyddyn fawr i'r Wladfa a gwn i lawer o'ch darllenwyr gael y pleser o fod yn rhan o'r dathliadau a gynhaliwyd yno. Bu'r adroddiadau'n ganmoliaethus iawn a phawb yn tystio i'r croeso a roddwyd i'r holl ymwelwyr.

Mae ffordd syml iawn o ddangos eich gwerthfawrogiad mewn modd ymarferol. Mae'n siŵr eich bod yn gwybod am Gymdeithas Cymru-Ariannin ac efallai ichi ymaelodi ynddi, ond tybed oeddech chi'n gwybod bod cangen o'r Gymdeithas yn

cyfarfod ym Mangor? Fe'i sefydlwyd dros chwarter canrif yn ôl er mwyn hyrwyddo'r berthynas rhwng ein dwy wlad.

Rydym yn cyfarfod deirgwaith y flwyddyn yn festri Capel Penuel, Bangor a phetaech yn ymuno â ni fe gaech groeso cynnes iawn a nosweithiau difyr ac amrywiol.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â'r ysgrifennydd ar 01248 712576, e-bost: cathrin.williams@gmail.com

Gan edrych ymlaen at eich gweld,
Cathrin Williams (ysgrifennydd)

EGLWYS UNEDIG BETHESDA LLENWI'R CWPAN

Dewch am sgwrs a phaned Bob bore **dydd Iau** rhwng **10.00** o'r gloch a hanner dydd

Clwb Cyfeillion Llais Ogwan

Gwobrau Mehefin

- £30.00**
(53) Nansi Thomas, 14 Rhes Gordon, Bethesda.
- £20.00**
(24) Ann Thomas, Maes y Garnedd, Bethesda.
- £10.00**
(139) Eirlys Edwards, 23 Pentref Llandygai.
- £5.00**
(150) Myfanwy W. Harper, Fferm Tŷ Newydd, Llandygai.



Ganrif i'r mis hwn

- ER COF**
Am
David Davies
A fu farw
4 - 6 - 1916 Yn 27 oed
R. Williams
A fu farw
12 - 6 - 1916
Richard Thomas Price
A fu farw
27 - 6 - 1916 Yn 30 oed

(Diolch i Andre Lomozik am ei anfon i'r Llais)

Owen's Tregarth

Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd

Arbenigo mewn meysydd awyr Cludiant Preifat a Bws Mini



01248 60 22 60 | 07761 619 475
www.owenswales.co.uk

YN EISIAU GWIRFODDOLWYR!

Mae Neuadd Ogwen angen mwy o wirfoddolwyr i helpu yn ystod ein digwyddiadau.

Eich neuadd chi yw hon!

Am ragor o wybodaeth: Cysylltwch ag Owain ar **01248 208 485** neu **07442 532 746** **owain@neuaddogwen.com** neu gyrrwch neges drwy dudalen Facebook y Neuadd



Dilynwch Llais Ogwan ar Trydar @Llais_Ogwan

Clwb Ffermwyr Ifanc Dyffryn Ogwen

Yn ystod yr wythnosau diwethaf mae aelodau'r clwb wedi bod yn brysur iawn yn paratoi at y rali flynyddol. Roedd y rali eleni yn cael ei chynnal gan glwb Llanrwst ar fferm Garthmyn Isaf, Llanrwst. Roedd y rali yma yn rali gyntaf i nifer fawr o'r aelodau, ac felly yn brofiad newydd iddynt.

Bu pwyntiau tuag at y rali yn cael eu hel gan glybiau ar draws Eryri ers Mawrth 18, pan gynhaliwyd cystadleuaeth rygbi 7 bob ochor, y cyntaf yn y sir ers rhai blyneddodedd, a hynny yng Nghlwb Rygbi Bethesda. Roedd pedwar tîm, gyda dau aelod o Ddyffryn Ogwen yn helpu clwb Porthdinllaen oedd heb dîm llawn.

Ymlaen wedyn i Ebrill 27 a'r barnu Defaid Llŷn, Moch Cymreig a Gwartheg Jersey. Aeth wyth aelod i Lithfaen i gystadlu ar y barnu defaid a'r moch, gyda Carys Jones, Dinas, yn dod yn gyntaf am farnu defaid Llŷn i rai dan 18, a'r tîm yn dod yn gydradd drydydd efo clwb Caernarfon. Yn y barnu Moch daeth Gethin Harper yn ail a Carys Jones yn drydydd, gyda'r tîm yn dod yn drydydd.

Cynhaliwyd cystadleuaeth ffensiio flynyddol y sir ar ddydd Sadwrn, Ebrill 30 gyda Siôn, Gwil ac Iwan wedi mentro i Ben Llŷn i roi cynnig arni. Dim llwyddiant, ond wedi cael digon o hwyl.

Y dydd Mawrth wedyn roedd y barnu gwartheg godro. Yn anffodus, wnaeth neb o'r chwe aelod orffen yn y tri uchaf, ond pawb wedi cael marciau da ac wedi mwynhau.

Ar ôl gorffen y cystadlaethau uchod roedd yn rhaid dechrau paratoi am y rali. Thema'r rali eleni oedd "Trwy'r Degawdau". Roedd eisiau gwneud ychydig o'r cystadlaethau o flaen llaw, fel gwneud penffrwyng allan o gortyn bêl. Ar y cyfan fe gafwyd hwyl ar wneud y penffrwyng er bod rhai wedi colli tymer!. Roedd eisiau meddwl, hefyd, am wneud arddangosfa ar y thema. Dechreuodd y rhai oedd yn fwy artistig ar y gwaith hwnnw, tra bu eraill wrthi yn gwneud gwisgoedd ar gyfer y gystadleuaeth "It's a Knockout", gan fod angen gwisgo fel cymeriadau cartŵn.

Buan iawn y cyrhaeddodd 28 Mai a'r aelodau yn teithio tua Garthmyn. Ar ôl cystadlu ar bob math o gystadlaethau ar y diwrnod, yn cynnwys "Trwy'r tyllau", "Ar y pwl", dreifio tractor a threlar, newid olwyn trelar, a mwy, cafwyd dipyn o lwyddiant yno gan ennill ambell i gystadleuaeth.

Enillodd Beca Jackson y lapio gwlân dan 26. Enillodd Dyffryn Ogwen 1, sef Dylan, Siôn, Gethin ac Iwan yr "It's a Knockout" Enillodd Elin ac Osian "Pwy sy'n gwisgo'r trowsus"

Daeth Carys yn drydydd am adeiladu capsiwl amser.

Daeth un tîm yn drydydd yn "Gêm yr oesoedd retro".

Daeth Meilir ac Osian yn drydydd yn y treialon cwn defaid dall

Daeth ein llyfr trysorydd yn gydradd drydydd.

Daeth Shauna yn gydradd drydydd gyda ffotograffiaeth ar y thema lliwiau.



Ar ddiwedd y dydd gorffennodd Clwb Dyffryn Ogwen yn y chweched safle. Bydd rhai aelodau felly, yn cael mynd ymlaen i gystadlu yn y Sioe Frenhinol yn Llanelwedd ar ran Eryri. Y cyfarfod blynyddol sydd nesaf ar y

calendr cyn cynnal y stondin flynyddol yn Sioe Dyffryn Ogwen. Bydd y clwb yn cau wedyn dros yr haf ac yn ail ddechrau mis Medi.

Os am fwy o wybodaeth am y Ffermwyr Ifanc cysylltwch â Swyddfa Ffermwyr Ifanc Eryri ar 01286 831214, neu os oes diddordeb i ymuno â ni ym mis Medi, cysylltwch ar 07858264371. Mae croeso i unrhyw un rhwng yr oed 13-26 i ymuno a ni.

Buasem fel clwb hefyd yn hoffi diolch yn fawr i bawb sydd wedi bod o gymorth i ni drwy'r flwyddyn mewn unrhyw ffordd. Hefyd diolch yn fawr Mr Garmon Hughes o Tryfan Agri ac i Mr Arwel Edwards, Moduron Pandy, am noddi crysau newydd i'r clwb a gawsom yn arbennig ar gyfer y Rali.

Dyma luniau rhai o aelodau Clwb Ffermwyr Ifanc Dyffryn Ogwen yn y Rali.



Tregarth

Olwen Hills (Anti Olwen),
44 Bro Syr Ifor, Tregarth ☎ 600192

Angharad Williams,
23 Ffordd Tanrhiw, Tregarth ☎ 601544

Eglwys y Santes Fair

Gwasanaethau
Mehefin
19 Boreol Weddi
26 Cymun Bendigaid

Gorffennaf
3 Boreol Weddi
10 Cymun Bendigaid
17 Boreol Weddi
Pob gwasanaeth am 9.30.

Clwb Cant Mis Ebrill

- 1. Peter Roberts (19)
- 2. Iolo Williams (165)
- 3. Babs Roberts

Clwb Cant Mis Mai

- 1. Fiona Parry (115)
- 2. David Jones (6)
- 3. Laura Jones (96)

Mae Garddwest y 3 eglwys dydd Sadwrn zill o Orffennaf o 1 o’r gloch tan 4, yn Ficerdy Pentir. Dewch draw i gael prynhawn o hwyl. Cofiwch am y Gystadleuaeth Ffotograffiaeth – dyddiad cau Dydd Sadwrn 25 Mehefin.

Yn ystod mis Ebrill a Mai rydym wedi cael boreau coffi yn yr eglwys ar fore Sadwrn. Roedd yn braf gweld rhai yn dod draw am baned a sgwrs. Diolch i’r rhai sydd yn ein cefnogi.

Ar y Radio

Ychydig wythnosau yn ôl cafwyd cyfle i glywed Alaw Jones, Parc Moch , yn sgwrsio gyda Dei Thomas ar ei raglen wythnosol ar nos Sul. Roeddau nhw’n sgwrsio’n ddifyr dros ben am adeiladu waliau cerrig.

I bawb sy’n adnabod Alaw mae’n hen law ar Walio ac aeth drwy’r camau angenrheidiol a ddilynir pan wrth y grefft o adeiladu waliau cerrig a hynny’n benodol yn ardal Dyffryn Ogwan.

Yn sicr roedd gwir grefftwr wrth ei waith yn cyflwyno’r broses a’r grefft a ddysgwyd iddo gan gyn grefftwyr yr ardal. Dyma Radio Cymru ar ei gorau ac os cewch gyfle ewch yn ôl i wrando ar grefftwr o’r iawn ryw.

Merched y Wawr Cangen Tregarth

Nos Lun, Mai 8, yn Festri Capel Shiloh bu cyfarfod Mis Mai o’r gangen leol o Ferched y Wawr. Cyflwynodd y llywydd, Margaret Jones y wraig wâdd, sef Susan Peters o Gaernarfon.

Trefnu Blodau yw galwedigaeth Susan ac arferai gadw siop yn y dref ond bellach mae’n gweithio o’i chartref ac yn hynod o brysur yn trefnu blodau ar gyfer bob math o achlysuron yn ogystal a threfnu cyrsiau mewn gwahanol bentrefi a chymunedau.

Yn ystod y noson aeth ati i drefnu amryw

o drefnïanau diddorol. Rhai yn lliwgar gyda môr o wahanol liwiau ac eraill ond yn cynnwys ychydig o flodau a thyfiant gwyrdd ond a oedd eto yn arbennig o effeithiol a deniadol.Cafodd gyfle i werthu rhai o’r cynnyrch a ddaeth gyda hi ac ymhen dim roedd popeth wedi’i werthu a’r prynwyr i gyd yn fodlon iawn gyda’r cynnyrch.

Diolchwyd i Susan am noson gofiadwy ac ar ddiwedd y sesiwn dyfarnwyd mai Eirwen, Tyddyn Dicwm oedd wedi ennill y gystadleuaeth gyda’i threfniant bach o flodau.

Ar Fehefin 6 daw Rhiannon Parry i gyflwyno noson dan y thema ‘Llysiau Llesol Salisbury’.

Cofiwch hefyd am wibdaith y gangen i Ysbyty Ifan ar Orffennaf 4 i gyfarfod Ela Jones sy’n gyfrifol am Wisgoedd yr Orsedd yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Cysyllter â Angharad Williams,601544 am fwy o wybodaeth.

Codi Arian

Ar ddydd Sul, 24 Ebrill, cerddodd Val Hayward, 14 Bro Derfel, o’r Felinheli i Gaernarfon ar hyd y Lôn Las. Cododd y swm o £825.00 at y “North Wales Brain Fund”. Dymuna Val ddiolch i bawb sydd wedi ei chefnogi, a hefyd i’r bobl oedd wedi cerdded wrth ei hochr a’i chefnogi’r holl ffordd. Cododd Val yr arian er cof am ei chwaer, Jean.

Capel Shiloh

Oedfa am 5.00 oni nodir yn wahanol.
Mehefin
19 Mererid Mair, Caernarfon
26 Trefniant Lleol

Gorffennaf
3 Philip Barnett
10 Eric Jones, Bangor
17 John Gwilym Jones, Peniel, Caerfyrddin
24 Gwynfor Williams, Caernarfon

Bore Sul, Mai 16, bu’r plant a’r ieuenctid yn dathlu a chofio yn arbennig am Wythnos Cymorth Cristnogol. Gwnaeth Gwenno, Iestyn, Huw, Ifan , Gwenlli, Nel a Myfi eu gwaith yn ardderchog yn dangos pa mor bwysig ydi cadw at yr arferiad blynyddol hwn a ddethlir pob Mis Mai.

Cafwyd sgwrs amserol a Power Point i ddarlunio pwysigrwydd cael y cyfle o gyfrannu i helpu eraill gan Sioned Williams o Fethesda a hynny’n effeithiol iawn. Gwnaed casgliad ar gyfer yr achos a bu Myfi Celyn yn gwerthu teisennau roedd wedi’i paratoi gyda’r elw at y gronfa leol yn Nyffryn Ogwen.

Diolch i’r rhieni am drefnu’r gwasanaeth.

Gwellhad

Da ydi gweld Wynne Roberts, Bryn Difyr, wedi gwella ac yn ôl yn ei sedd yn Shiloh wedi’r ddamwain a gafodd yn ddiweddar ym Mhorthmadog.

Dathlu Priodas

Dymunwn anfon ein dymuniadau da fel aelodau Shiloh a’r holl ardal i Dylan Griffiths,

mab Anwen a’r diweddar Tom Griffiths, Cysgod y Parc, Sling, fydd yn priodi Lucu Boyle yn Swydd Rhydychen , Dydd Sadwrn, Mehefin 5.

Profedigaeth

Yn rhifyn Mis Mai o’r Llais roeddem yn anfon ein cofion at Mrs Lilian Brockelbank, 1 Bro Syr Ifor , oedd wedi symud o’i chartref yn Nhregarth i Gartref Gofal yn Llanrug. Trist yw cofnodi iddi farw ar Fai2 a hithau’n 94 mlwydd oed. Daeth yn aelod ffyddlon yn Shiloh wedi i gapel Gorffwysfa, Sling, gau ac er na fu’n dda ei hiechyd yn ystod y misoedd dwytha bu’n ffyddlon tra gallai yn mynychu’r oedfa ar Nos Sul. Bu ei hangladd yn Amlosgfa Bangor ar Fai 13 a chydymdeimlwn gyda’r teulu yn eu profedigaeth.

Modurdy Central

**Ceir ail-law ar werth
M.O.T. ar gael
Hefyd
Trwsio a Gwasanaeth
Ar Allt Pen-y-bryn, Bethesda
☎601031**

WU SHU KWAN

Bocsio Cic Tsieineidd (Kung Fu)

**Dosbarthiadau
yng Nghanolfan
Gymdeithasol
Tregarth bob
nos Fercher
6.30 tan 8.30**

**Un sesiwn am ddim os dewch
â’r hysbyseb hwn hefo chi**

♦ Croeso i bawb, yn arbennig dysgwyr ♦
**Manylion gan Jake neu Elena
Fitzpatrick - 01248 602416
neu galwch heibio’r dosbarth**

Meithrinfa Ogwen Cyf

**Cymhorthydd
Dros Cyfnod Mamolaeth**

i ddechrau Medi 2016

**1 swydd llawn amser neu
2 swydd rhan amser**

Cymhwyster Lefel 3 mewn Gofal Plant a’r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol
Swydd yn ddibynnol ar gwiriad DBS

Am fwy o fanylion cysylltwch â
Delyth Jones / Julie Griffiths
01248 605555

Bethesda

Fiona Cadwaladr Owen,
Bryn Meurig Bach, Coed y Parc,
Bethesda, LL57 4YW ☎ 601592

Joe Hughes, Awel y Nant, Ffordd
Ffrydlas, Bethesda ☎ 601902

Ysbyty

Cofion cynnes a gwellhad buan i bawb a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar. Da deall fod rhai wedi dychwelyd gartref. Clywsom am y canlynol:- Mr. Now Jones, Erw Las; Mr. John Hughes, Bontuchaf; Mr. Gari Jones, Stryd y Dŵr; Mr. Jackie Williams, Glanffrydlas.

Marwolaeth

Mr. Emrys Wyn Price
Yn ysbyty Wythenshaw ar 5 Mai, bu farw Mr. Emrys Wyn Price, gynt o 4 Parc Moch, yn 78 oed. Priod y ddiweddar Mrs. Beverley Price a brawd i Anwen, Buddug, a'r diweddar Gareth a Llinos, ac ewythr hoffus. Bu'r gwasanaeth angladdol yn Amlosgfa Bangor ar ddydd Gwener, 20 Mai, dan arweiniad y Parchedig Dafydd Coetmor Williams. Anfonwn ein cydymdeimlad atoch fel teulu i gyd.

Mrs. Helen Thomas
Ar 23 Mai, yn dawel yn ei chartref yn 1 Rhes Penrhyn, bu farw Mrs Helen Thomas yn 67 mlwydd oed. Priod annwyl y diweddar Mr. Brian Thomas. Cynhaliwyd ei hangladd ddydd

Mercher, 1 Mehefin, yn Amlosgfa Bangor. Cydymdeimlwn a'r teulu yn eu colled.

Cydymdeimlo

Anfonwn ein cydymdeimlad a chofion at y teuluoedd a fu mewn profedigaeth yn ddiweddar:- Mr. a Mrs. Elfed Bullock, Maes y Garnedd, yn eu profedigaeth o golli chwaer yng nghyfraith a modryb, sef Mrs. Alice Jones o Rachub.

Mr. a Mrs. Billy Edwards, Garej Central, Allt Penybryn, yn eu profedigaeth fawr o golli eu merch yng nghyfraith, Mrs. Lynne Edwards, Carneddi yn 44 oed.

Babanod Newydd

Llongyfarchiadau i Marian Dawtrey, Ffordd Ffrydlas, ar yr achlysur hapus o ddod yn nain unwaith eto. Y tro yma i Sac a anwyd ar 3 Mai. Llongyfarchiadau hefyd, i Mrs. Megan Phillips, Rhes Gordon, ar ddod yn hen nain am y tro cyntaf - i Oscar.

Gair o Ddiolch

Dymuna Mrs. Gwenda Jones, 14 Glanffrydlas, ddiolch i bawb am y cardiau, galwadau ffôn a'r blodau hardd a dderbyniodd tra yn yr ysbyty ac wedi iddi ddychwelyd gartref.

Gorffwysfan, Stryd Fawr

Ar Sadwrn, 21 Mai, yng Nghanolfan Cefnfaes, cafwyd bore coffi llwyddiannus iawn gydag elw o £304.00. Diolchwyd i bawb a fu'n helpu, ac i

bawb am eu rhoddion, gan y cadeirydd, Mr. Elfed Bullock.

Diolch hefyd i Mrs. Val Amos a'r teulu, Glanogwen, am eu rhodd garedig er cof am y diweddar Mr. Jim Amos.

Anfonwn ein cydymdeimlad at Mr. Edric Jones a'r teulu, Tan y Garth, Rachub, yn eu profedigaeth o golli Mrs. Alice Jones ar 27 Mai. Priod, mam, nain a hen nain annwyl.

Bu'r gwasanaeth angladdol yn Eglwys Crist Glanogwen a mynwent Eglwys Coetmor, ddydd Gwener, 3 Mehefin, gyda'r ficer, Y Parchedig John Mathews a'r Chwaer Juliet yn gwasanaethu. Mrs. Christine Edwards oedd wrth yr organ. Roedd Alice yn aelod o Gorffwyfan ers sawl blwyddyn ac yn mwynhau'r gwibdeithiau a'r ciniawau Nadolig, hyd at ei salwch blin.

Anfonwn ein cofion at yr aelodau sy'n sâl ar hyn o bryd.

Gwibdaith Southport dydd Mercher, 29 Mehefin. Cychwyn o Ffordd Tanrhiw, Tregarth - 8.10yb; Rachub - 8.20yb; ac yna Bethesda.

Merched y Wawr Bethesda

Ar 18 Mai treuliodd Cangen Bethesda brynhawn yn Oriel Môn yn astudio, pendroni a cheisio dehongli gwaith haniaethol yr artist Mary Lloyd Jones o Aberystwyth, sydd yn parhau i beintio yn 82 oed. Wedi cael paned a cacen yn yr Oriel aethom ymlaen i Bistro Harri ar safle Clwb Golff Biwmares i gael swper blasus. Diolchwyd i'r trefnwyr Pat Corns a Jennie Jones gan ein llywydd Elina Owen.

Gwirfoddolwch i Gymdeithas Eryri!

Mae'r gweithgareddau yn cynnwys cynnal a chadw llwybrau, casglu sbwriel, rheoli cynefinoedd, clirio rhododendron, gwneud arolygon o famaliaid a chyfleoedd i hyfforddi am ddim.



Mwynhau Eryri
Gwneud ffrindiau newydd

Dysgu sgiliau newydd
Rhoi rhywbeth yn ôl

Gwella eich CV
Cael hwyl!

Byddwn yn rhedeg diwrnodau gwaith cadwraeth trwy gydol y flwyddyn yn Eryri a'r cyffiniau. Croeso i bawb.

I gael rhagor o fanylion, cysylltwch ag Owain Thomas:
owain@snowdonia-society.org.uk
01286 685498
www.snowdonia-society.org.uk



Plaid Cymru Cangen Dyffryn Ogwen

Yn ein cyfarfod diweddaraf o'r gangen datganwyd ein llongyfarchiadau i Siân Gwenllian, A.C., wedi iddi gael ei hethol i'r swydd honno fel ein haelod cynulliad yn Arfon yn enw Plaid Cymru.

Mae hi wedi ymgymryd â'r swydd honno ym Mae Caerdydd yn syth wedi'r etholiad. Bu'n ymgyrch brysur iawn a chafwyd ymateb da a sgwrsiau adeiladol wrth fynd o dŷ i dŷ. Dymunwn yn dda i Siân a gwyddom y bydd yn Aelod Cynulliad a fydd yn gweithio dros ac yn estyn cymorth i'w holl etholwyr.

Adroddodd y cynghorydd Dafydd Meurig bod y gwaith o liniaru llifogydd yr A55 wedi cychwyn a bydd yn weithredol cyn y gaeaf. Newyddion da i Dalybont a'r ardal.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r tyfiant sydd ym Mynwent Coetmor a bod llawer o gwynion wedi dod i law. Hefyd ar ymylon ffyrdd a chylchfannau. Bydd y cynghorydd yn gwneud ymholiadau.

Llongyfarchwyd Angharad Williams am ei chodi yn gadeirydd Cyngor Llandygai a Neville Hughes a Linda Brown am eu codi yn gadeirydd ac is gadeirydd Cyngor Cymuned Bethesda.

Penderfynwyd ei bod yn bryd cynnal noson gymdeithasol yn y dyffryn a dewiswyd Medi 16eg fel dyddiad gan ei bod yn Ddiwrnod Glyndŵr. Felly.....gwyliwch y gofod! Edrychwch am hysbysebion.

Cynhelir ein cyfarfod nesaf Mehefin 28ain yng Nghefnfaes am 7:00.

Plaid Lafur Dyffryn Ogwen

Cynhaliwyd bore coffi blynyddol y gangen yng Nghanolfan Cefnfaes ar ddechrau mis Ebrill gyda'r cynghorydd sirol Siôn Jones (yr ymgeisydd Llafur ar gyfer etholiad Cynulliad Cymru) , gan wneud elw parchus at gronfa'r gangen. Da oedd clywed bod yr etholaeth yn dal i ddenu aelodau newydd. Yng nghanol y mis dechreuwyd dosbarthu trydedd daflen Siôn

Yna, ar ddiwedd mis Ebrill, aeth nifer o aelodau'r gangen i gyfarfod Gogledd Orllewin Cymru'r Blaid Lafur am refferendwm Ewrop. Derek Vaughan A.S.E., Brian Jones o Adran Fusnes Prifysgol Bangor a Siôn Jones oedd yn annerch. Cafwyd ffeithiau diddorol, a digon o gyfle i ofyn cwestiynau a chael atebion.

Ar ddechrau Mis Mai, cynhaliwyd yr etholiad gyda Siôn Jones yn dod yn ail barchus. Cafwyd cynnydd sylweddol yn y blediais Lafur ac yn y canran o bleidleiswyr a gefnogodd Llafur, gyda gostyngiad arwyddocaol ym mhleidlais y Toriaid.

Cynhelir cyfarfod blynyddol Plaid Lafur Arfon ar ddechrau mis Gorffennaf.



Yn ôl yn ein cartref arferol yn Neuadd Ogwen y bydd Marchnad Ogwen Gorffennaf y 9fed o 9.30 - 1.30. Croeso cynnes fel arfer wrth gwrs! Mae lle i Stondinau bwyd yn y Farchnad erbyn hyn yn enwedig cig a bara. Cysylltwch â'r ysgrifennydd os ydych gyda diddordeb gan gofio am ofynion cyfreithiol y Sgôr Hylendid Bwyd.

Mantell Gwynedd sy'n cynnal y Stondin Elusen ac Elen Scrabels yn cynnal y Stondin 'Un Tro'. Dim ond mis Awst sydd ar gael i'r Stondin 'Un Tro' eto eleni ond mae croeso i chwi fynd ar y rhestr aros rhag ofn y bydd lle gwag. Mae 2017 yn rhydd i'r ddau Stondin yma.

Mae gwybodaeth gyfredol am y Farchnad ar ein gwefan www.marchnadogwen.co.uk a hefyd ar Facebook a Twitter.

Stondin y mis yw **Go Plan my Meals** yng ngofal Bethan Mortimer. Dyma i chi Stondin unigryw! Mae Bethan yn paratoi prydau bwyd mewn potiau gwydr sy'n hawdd, iachus, amlbwrpas, yn addas i rai ar ddiet colli pwysau ac yn werth y gost. Nid oes halen na siwgr wedi ei ychwanegu. Mae'r potiau yn addas i deuluoedd, i blant yn y coleg, at wyliau yn y garafán, i famau prysur - yn wir i unrhyw un sy'n hoffi bwyd iachus. Os ydych yn byw ar ben eich hun, gallwch wneud pryd o gynnwys y potiau, ei rannu a'i rewi.

Mae pob potyn gyda rhestr cynhwysion a chyfarwyddiadau coginio. Dyma i chi un enghraifft i wneud yr hen ffefryn, Sbageti Bolognese llysieuol. Ychwanegwch un nionyn a thun bach o domatos i gynnwys y pot a dyna chi! Gallwch ychwanegu cig o'ch dewis i rai



rysetiau hefyd. Mae Bethan yn barod iawn i gynghori unrhyw un sydd eisiau gwybodaeth bellach am y bwydydd ac wrth gwrs sut i fynd ati i'w paratoi.

Llyfrgell Bethesda

Mae llyfrgelloedd ym mhobman yn dathlu 100 mlwyddiant Roald Dahl eleni gyda'r Darllen Mawr Direidus, Sialens Ddarllen Haf 2016, a fydd yn cychwyn yn swyddogol ar fore Sadwrn 16eg Gorffennaf ac yn parhau tan ddechrau Medi. Ymunwch â Llyfrgell Bethesda i gael ffolder yn rhad ac am ddim i gadw'ch casgliad o gardiau arbennig, ymwelwch â'ch llyfrgell deirgwaith dros wyliau'r haf a benthycwch tri llyfr o'ch dewis bob tro. Cofiwch fod eich llyfrgell leol yno er mwyn i'ch plant gael darllen y llyfrau newydd diweddaraf - yn straeon, nofelau, llyfrau jôcs, a llyfrau am eu hoff ddiddordebau. Ac mae llyfrau Roald Dahl gennym yn Gymraeg a Saesneg, gyda chyfle i'ch plant ddod i

nabod y Cawr Mawr Mwyn, y Crocodeil Anferthol a'r Twits, i enwi ond ychydig! Bydd pob plentyn yn derbyn tystysgrif a medal os llwyddant i gwblhau'r sialens ac ymweld â'u Llyfrgell 3 gwaith dros yr haf! Mae'n dipyn o her ceisio cadw plant yn ddiddig a heb ddiflasu yn ystod gwylliau hir yr haf, felly beth amdani? Cymerodd dros 2,700 o blant Gwynedd ran yn sialens y llynedd felly cyntaf i'r felin piau hi. Ewch draw i'ch llyfrgell leol i gychwyn eich Sialens Ddarllen Haf ac i ddarganfod stôr o lyfrau a straeon difyr a chyffrous yn eich aros! Mae'r Sialens Ddarllen Haf yn cael ei gynhyrchu gan The Reading Agency ac yn cael ei ddarparu gan Lyfrgelloedd.

Talybont

Neville Hughes, 14 Pant, Bethesda
☎ 600853

Eglwys St. Cross

Bingo

Trefnwyd noson ddifyr a hwyliog yn Ysgoldy Maes y Groes ar 24 Mai, lle cawsom gêm o Bingo dan ofal Ann Pritchard a Hefina Watts. Roedd nifer yn bresennol, a diolch iddynt am eu cefnogaeth. Diolch hefyd i Phyllis Davies am drefnu lluniaeth ysgafn yn ystod y noson.

Dau Wasanaeth

Ar y Sul olaf o fis Mai cynhaliwyd gwasanaeth undebol yn Eglwys Sant Mair, Tregarth. Ar yr un noson roedd Canu Mawl yn Eglwys Sant Tegai. Diolch i aelodau'r ddwy eglwys am eu croeso, a'r lluniaeth ysgafn yn dilyn y gwasanaethau.

Brysiwch Wella

Hoffem anfon ein cofion at Val Withers, Cae Bach, sydd wedi bod yn cwyno ers rhai misoedd. Balch o ddweud fod Phyllis Davies yn gwella yn foddhaol yn dilyn anhwylder yn ddiweddar.

Digwyddiadau

Cofiwch am y Te Mefus yn Ysgoldy Maes y Groes brynhawn Sadwrn, Mehefin 18ed am 2 o'r gloch.

Hefyd am Arddwest y Tair Eglwys yn Ficerdy Pentir ar Sadwrn, 2 Gorffennaf. 1.00 tan 4.00. Croeso cynnes i bawb.

Capel Bethlehem

Oedfaon y Sul

Mehefin

19 Parchg. Trefor Lewis; Mehefin 26: Oedfa i'r Ofalaeth yng Nghapel Carmel dan arweiniad y Gweinidog (5.00);

Gorffennaf

03 Parchg. Megan Williams, Porthaethwy;
10 Oedfa Deuluol gyda'r Gweinidog a phlant yr Ysgol Sul;
17 Parchg. William Davies, Y Bala;
24 Parchg. Gerallt Lloyd Evans.
Oedfaon am 2.00 oni nodir yn wahanol.

Te Mefus

Cynhelir ein Te Mefus blynyddol ar nos Fawrth, 5 Gorffennaf am 7 o'r gloch. Mynediad £2.00. Elw at yr Achos.

Ysbyty

Mae Mrs Eirlys Evans, Bro Emrys, wedi treulio cyfnod yn yr ysbyty, a Mr. Richard Pritchard, Glan Bethlehem yn gobeithio cael dod adra yn dilyn triniaeth. Ei wyres, Eleri, 14 Dolhelyg, yn gwella ar ôl anaf i'w throed a'i rhoddodd ar faglau am ychydig o wythnosau. Dymunwn wellhad buan i chi.

Llongyfarchiadau

I blant a phobl ifainc y pentref a gymerodd ran yn Eisteddfod yr Urdd, a hwyl i bawb ar eu hanner tymor olaf cyn gwyliau'r Haf.

Llandygái

Iona Wyn Jones, Dyma Fo, 16 Pentref
Llandygái, Bangor LL57 4HU
☎ 01248 354280

Eirlys Edwards, Sŵn y Coed,
23 PentrefLlandygái, Bangor LL57 4HU
☎ 01248 351633

Eglwys Sant Tegai, Llandygai

Dathlu 25 mlynedd

Ar ddechrau mis Mai bu cyfle i'r gynulleidfa anrhegu Mr Geraint Gill Llanfairfechan i ddathlu ei chwarter canrif fel organydd swyddogol St Tegai. Diolch iddo am ei wasanaeth hir ac edrychwn ymlaen am y chwarter canrif nesaf!

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Anna Rosie Grace Roberts, wyres y Parchedig J Aelwyn Roberts, cyn ficer Eglwys St Tegai, ar achlysur ei phriodas gyda Bryn David Williams yn St Tegai ar yr 28 fed o Fai. Pob bendith iddynt yn eu bywyd priodasol.

Braf yw cofnodi penodiad Mr Elfed Morgan Morris fel Pennaeth newydd Ysgol Eglwys Llandygai. Pob dymuniad da iddo ac i staff yr ysgol wrth iddynt ymgymryd â'r cyfrifoldeb o addysgu plant yr ardal.

Noson Bingo

Cynhaliwyd y noson Bingo arferol yn Neuadd Talgai ar Fai 24ain er budd yr eglwys. Daeth criw niferus i gystadlu am y gwobrau a gwnaethpwyd elw o dros £140 at gronfa'r eglwys. Diolch i bawb a fu'n cefnogi mewn gwahanol ffyrdd, yn enwedig Pauline a Raymond.

Canu Mawl

Ar y pumed Sul ym mis Mai, daeth aelodau o chwe eglwys Bro Ogwen i Eglwys St Tegai i fynychu gwasanaeth o Ganu Mawl. Y Parchedig John Matthews oedd yn arwain a Mr Geraint Gill wrth yr organ.
Gofynnwyd i unigolion o'r chwe eglwys

i ddewis eu hoff emyn yn y Gymraeg neu'r Saesneg ac i ddisgrifio cefndir eu dewis. Cawsom amrywiaeth o emynau hen a newydd at ddant pawb. Roedd yr achlysur yn dilyn gwasanaeth ar y cyd yn y bore i dair eglwys yn Eglwys y Santes Fair, Gelli. Da yw gweld eglwysi yn cyd-addoli a chyd-weithio mor llawen.

Garddwest y Dair Eglwys

Dydd Sadwrn yr zil o Orffennaf bydd garddwest y Dair Eglwys (St Tegai, St Cross Talybont a Santes Fair Tregarth) yn cymryd lle rhwng 1.00 a 4.00 yng ngerddi Ficerdy Pentir.

Agorir yr arddwest gan y canwr enwog David Essex, sydd â chysylltiad teuluol gyda'r ardal. Ceir nifer sylweddol o stondinnau a gwerthfawrogir rhoddion a theisennau i'w gwerthu. Dewch yn llu i fwynhau y prynhawn!

Amseroedd gwasanaethau Sant Tegai

Gwasanaethau'r Sul cyntaf a'r pedwerydd Sul yn y mis am 9.30yb. Gwasanaethau ar yr ail a'r trydydd Sul yn y mis am 11 y.b.

Pen Blwydd

Dathlodd Steffan Evans, Penrhyn cottage ei benblwydd yn 18 ar Mai 27. Pen-blwydd hapus hwyr i ti a phob hwyl gyda'r arholiadau, cyn cychwyn ar dy daith coleg. Roedd Rees ei frawd adref o Gaerdydd i ymuno yn y dathlu.

Gerddi agored

Cofiwch am ein diwrnod agored as y 9fed o Orffennaf – gweler yr hysbyseb am fwy o fanylion.

Bore coffi

Cafwyd bore coffi llwyddianus dechrau'r mis yn Ty Eirlys a Dei Edwards at Cymorth Cristnygol.

Siom

'Rydym yn meddwl am Ethel Davies sydd yn disgwyl am lawdriniaeth. Yn anffodus mae wedi ei hanfon adref ar y diwrnod, heb y driniaeth, oleiaf bedair gwaith. "I ba beth mae'r byd yn dod".

Pobl Gwynedd yn pasio'r Bale dros Gymru

Dros yr wythnosau diwethaf mae hunaniaith, y Fenter Iaith sy'n gweithredu yng Ngwynedd wedi bod yn cymryd rhan mewn ymgyrch genedlaethol Y Bêl – pasio'r Bale dros Gymru i gasglu negeseuon o gefnogaeth a llofnodion i'w cyflwyno i dîm Pêl-droed Cymru, mewn cinio dathlu wrth iddynt baratoi ar gyfer pencampwriaeth yr Ewro 2016.

Mae 23 pêl, un gan pob Menter Iaith wedi bod yn crwydro Cymru dros yr wythnosau diwethaf gyda phum mil ar ugain o negeseuon o gefnogaeth yn cael eu nodi ar y peli.

Mae unigolion, teuluoedd, busnesau, clybiau lleol, sefydliadau ac ysgolion wedi datgan eu cefnogaeth i dîm Cymru a phasio'r 'Bale' ymlaen i'r person nesaf, a hyn yn

symbolaidd o bwysigrwydd trosglwyddo'r Gymraeg i eraill, er mwyn sicrhau ei dyfodol.

Un sydd wedi'i gyffroi'n lân am yr ymgyrch, ac sydd wedi chwarae rôl flaenllaw wrth hyrwyddo Cymru a'r Gymraeg dros y blynyddoedd yw'r cyn-chwaraewr a'r gôl-geidwad rhyngwladol, Dai Davies.

"Mae gweld Cymru, am y tro cyntaf ers cyfnod hir iawn, mewn pencampwriaeth ryngwladol yn rhywbeth i bob un ohonom ddathlu.

"Fel chwaraewr pêl-droed, a fel sylwebydd, mae'r gallu i siarad Cymraeg wedi bod yn fanteisiol iawn i mi yn ystod fy ngyrfa.

"Rwyf wrth fy modd, yn gallu cefnogi ymgyrch y Mentrau Iaith i gasglu cefnogaeth i'r tîm, a hoffwn alw ar bawb i ymuno yn y dathlu, cefnogi Cymru a chefnogi'r Gymraeg."

gair neu ddau

John Pritchard

EWROP

Os yw gwleidyddiaeth yn ddiflas i chi ... os yw pêl droed yn ddiflas i chi ... a gwaeth fyth, os yw gwleidyddiaeth a phêl droed yn ddiflas i chi, bydd mis Mehefin yn annioddefol. Dros yr wythnosau nesaf, bydd yn anodd i chi ddianc rhag y Refferendwm a Rowndiau Terfynol Ewro 2016. Os na ddigwydd rhywbeth hynod annisgwyl, Ewrop gaiff y sylw am y mis cyfan.

O hyn hyd ddiwrnod y Refferendwm bydd pobl yr ‘Aros’ a’r ‘Gadael’ yn sôn am yr hyn a gawsom o fod yn rhan o’r Undeb Ewropeaidd. Does ond gobeithio y bydd ffeithiau a thrafodaeth deg a synhwyrol yn cael mwy o ddylanwad na rhethreg a chelwyddau a bygythion di-sail wrth i bobl benderfynu sut i bleidleisio. Mae’r garfan ‘Aros’ yn sôn am fanteision perthyn i’r Undeb: ‘Mae Prydain yn gryfach, yn fwy diogel ac mewn sefyllfa well. Bydd yr economi yn gryfach, bydd mwy o swyddi, bydd gennym brisiau is, a bydd yn haws mynd i’r afael â bygythiadau byd-eang.’

Mae’r pwyslais yn naturiol ar y budd presennol o berthyn i’r Undeb. Ond nid peth diweddar yw’r cysylltiad â’r cyfandir: mae’n hŷn o lawer na dyddiau’r gwyliau rhad a chaneuon *Eurovision* a phêl droed Champions League! Bum can mlynedd yn ôl, er enghraifft, gwelwyd y Diwygiad Protestannaidd, a oedd wedi ymledu i bob rhan o’r cyfandir, yn dylanwadu’n fawr ar grefydd a diwylliant Cymru. O’r cyfandir y daeth y symudiad crefyddol hwn a arweiniodd ymhlith pethau eraill at gyfeithu’r Beibl i’r Gymraeg.

Does dim disgwyl i neb sôn am bethau felly yng nghyd-destun y Refferendwm, wrth gwrs; ond mae’r holl sôn am Ewrop, gobeithio, yn atgoffa’r eglwysi o’r hyn a gafwyd o’r cyfeiriad hwnnw yn y gorffennol.

Calon y Diwygiad Protestannaidd oedd yr argyhoeddiad fod ffydd yn yr Arglwydd Iesu Grist yn gwbl sylfaenol i’r bywyd Cristnogol. Daeth y neges hon â gobaith a llawenydd i filoedd ar filoedd o bobl dros genedlaethau lawer. Roedd yr Efengyl a’r Ffydd Gristnogol wedi cyrraedd Cymru ganrifoedd cyn hynny, wrth gwrs. Daeth yma, mae’n debyg, mor bell yn ôl â’r flwyddyn 200, ganrifoedd cyn dyddiau Dewi Sant hyd yn oed. Ond roedd cyfnod y Diwygiad Protestannaidd yn yr unfed ganrif ar bymtheg yn un o gyfnodau mwyaf llewyrchus y Ffydd yn ein gwlad.

A hithau’n ddiwedd Mai, pwy a ŵyr beth fydd canlyniad y Refferendwm? A phwy a ŵyr beth a ddaw o’n tîm pêl droed erbyn dechrau Gorffennaf? Yn ddelfrydol, bydd Prydain a Chymru’n dal i mewn, a Lloegr allan! Beth bynnag a ddigwydd, bydd rhywrai’n dathlu. Ond pwy bynnag fyddant, a faint bynnag y dathlu, go brin y bydd pobl ymhen pum can mlynedd yn dal i gofio, ac yn dal i ddiolch am yr hyn a ddigwydd yn Ewrop yr haf hwn.

Pwy Sy'n Cofio Ddoe?

© Dr J. Elwyn Hughes



Dyddiadur Digwyddiadau 1975-1977

- 1975**
 - 01/1975: Y ‘ffordd osgoi’ (ar yr ochr ogleddol i Gaellwyngrydd) wedi’i chwblhau fwy neu lai a chystadleuaeth i gael enw iddi.
 - 03/04/75: Seremoni trosglwyddo safle hen Chwarel Pantdreiniog i Gyngor Arfon gan Ted Rowlands, Is-Ysgrifennydd yn y Swyddfa Gymreig. Y Cyngorydd Mary Hughes, Gerlan, Maer Arfon, yn derbyn y safle ar ran y Cyngor. Plannwyd coeden i nodi’r achlysur.
 - 06/1975: Clwb Pêl-droed Bethesda yn prynu Parc Meurig.
 - 09/1975: Cyfarfod Cyhoeddus i drafod cynllun y Ganolfan Gymdeithasol yn hen Ysgol y Cefnfaes. Y gwaith wedi dechrau eisoes ar droi un ystafell yn Ystafell Chwaraeon a dwy arall yn gegin a lolfa.
 - Sefydlu Cymdeithas Archaeoleg Llandygái a Llanllechid, dan arweiniad Mrs Gwenno Caffell.
 - Ifor Bowen Griffith yn traddodi Darlith Flynyddol Llyfrgell Bethesda [ond ni chyhoeddwyd y ddarlith hon, fel y cyhoeddwyd y ddarlithiau eraill a draddodwyd].
- 1976**
 - 03/1976: Y gwaith o godi tai cyngor yng nghaeau Garneddwen wedi dechrau ers rhai wythnosau. Ar y stad, bydd 12 o dai unllawr, 12 *maisonette* a 6 o dai tair llofft. Prynwyd y tir a dechreuwyd ar y cynllunio gan hen Gyngor Dinesig Bethesda.
 - 03/1976: J. Kenneth Hughes yn trosglwyddo’i fusnes trefnu angladdau, a sefydlwyd yn 1850, i berchennog newydd.
 - 10/03/1976: Y Prifardd Emrys Edwards yn traddodi ei ddarlith ‘Pesda i Mi: Atgofion Ardal’ yng Nghapel Jerusalem (Darlith Flynyddol Llyfrgell Bethesda). Cyhoeddwyd y ddarlith yn llyfryn yn 1977.
 - 04/76: Ysgol Abercaseg yn cael ei hadeiladu.
 - 10/1976: Cyhoeddi *Glywsoch Chi Hon? Detholiad o Ffraethebau a Straeon Digri o Ardal Bethesda. Cyfres y Fro - Cyfrol 1*. Cyhoeddwyd gan Gangen Dyffryn o Fudiad Adfer.
 - 24/10/1976 (ar fore Sul): Dymchwel yr Ogwen Hotel, yn Ffordd y Stesion.
 - 26/10/1976: Dymchwel Siop Lôn Pab (gan weithwyr J. Kenneth Hughes).
- Cau Ysgol y Gerlan. Adeiladwyd gan yr Arglwydd Penrhyn yn 1871
 - 20/12/1976: Marw Ffranccon Roberts, 51 oed, cymeriad lleol, un o golofnau cadarn y tîm pêl-droed lleol, ac aelod ffyddlon o Gapel Siloam.
 - 22/12/1976: Marw W. Leonard Jones, 44 Braichmelyn, cyn-chwarelwr, cyn-siopwr, a chyn- Gyngorydd ar Gyngor Dinesig Bethesda ac ar Gyngor Sir Caernsrfon.
 - Sefydlu Clwb Camera Dyffryn Ogwen.
 - Clwb Rygbi Bethesda yn prynu cae yn Nôl Ddafydd.
- 1977 (tua)**
 - Ar ôl 02/1977: Tynnu tŷ Garneddwen i lawr (er mwyn adeiladu rhagor o dai ar y stad newydd).
- 1977**
 - 16/03/1977: Oddeutu 7 o’r gloch nos Fercher, dinistriwyd swyddfa a stordy MAC’s/UBM Scaffolding ym Mraichmelyn gan dân mawr (na chanfuwyd mo’i achos). Safle gweithdy saer (a swyddfa), yn perthyn i gwmni adeiladu William Evans, Pentraeth, yn y 1950/1960au. Gweithdy Robert John Roberts cyn hynny (a’r peiriannau’n cael eu troi efo dŵr o Afon Gaseg yn llifo drwy gafnau ar hyd ochr y gweithdy). Cliriwyd y safle’n llwyr ddeuddydd ar ôl y tân. Codwyd dau dŷ ar y safle erbyn hyn.
 - 16/03/1977: Gwladys Williams yn traddodi ei ddarlith ‘Swyn Cofio’ yng Nghapel Jerusalem (Darlith Flynyddol Llyfrgell Bethesda). Cyhoeddwyd y ddarlith yn llyfryn yn 1977.
 - 25/05/1977: Marw William Richard Davies (*Wil Rîch*), cymeriad lleol lliwgar a gwahanol, yn 75 oed.
 - 09/1977: Glasnant Davies yn cerdded oddeutu 40 milltir i godi arian at brynu teledu i Blas Ogwen.
 - 09/09/1977: Cyfarfod Cyhoeddus yn Festri Capel y Gerlan pan benderfynwyd yn unfrydol i brynu adeilad hen Ysgol y Gerlan, a gawsai ei brisio gan Brisiwr y Sir yn £7500.
 - Yr Athro Idris Ll. Foster yn cael ei dderbyn yn Farchog yn Rhestr Anrhydeddau’r Frenhines.
 - Sefydlu Clwb Garddio Dyffryn Ogwen.
- I’w barhau

CAFFI COED Y BRENIN

1 Rhes Buddug, Bethesda

Ffôn: 01248 602550karena@agoriad.org.uk*Bwyd cartref blasus
(mewn awyrgylch cyfeillgar)*

Cinio arbennig bob dydd iau

Bwyd i'w gario allan

*Gwasanaeth arlwyio ar gyfer
partïon o bob math -
plant, pen-blwydd ac ati
(yn y caffi neu mewn lle o'ch dewis chi)*Cacennau ar gyfer pob achlysur
e.e. priodas neu ben-blwydd

Prisiau rhesymol

**BISTRO'R BRENIN
(Bwyty Trwyddedig)***Rydym yn croesawu partïon
o bob math - dathlu pen-blwydd
ac achlysuron arbennig eraill.
Beth am eich Parti Nadolig?*

Gadewch i

Londri Coed y Brenin
wneud eich golchi

Arbenigwr mewn lloriau coed caled

A.G.L.
LloriauArbenigwr mewn gosod a
selio lloriau coed caled,
adnewyddu lloriau
gwreiddiol a chyweirio
lloriau sydd wedi eu
difrodi.

Andrew G. Lomozik B.A.

Ffôn: 01248 602117 Symudol: 07835487909

Elwyn Jones & Co

hefyd yn masnachu fel

Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP

- Cyfreithwyr -

123 Stryd Fawr
Bangor
Gwynedd
(01248) 370224*Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol
Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar*

Swyddfeydd eraill:

Llangefni Ambwch Benllech
(01248) 723106 (01407) 831777 (01248) 852782Cuernarfon
(01248) 673616Pwllheli
(01758) 703000**Londis Bethesda**

☎ 01248 605566

Archfarchnad hwylus

Gwasanaeth personol

gyda'r pwyslais ar y cwsmer

Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy

Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr

7 diwrnod yr wythnos

JOHN ROBERTS**Paentiwr****Papurwr****Teilsiw****Symudol: 07747 628650****Ffôn: 01248 600995****Malinda Hayward
(Gwniadwraig)**Awel Deg
Penygroes, Tregarth.Am unrhyw waith gwnio
- trwsio, altro ac ati -**Ffoniwch**
01248 601164**Cerbydau Penrhyn****CABIAU A BYSIAU MINI****Ffôn: (01248) 600072****Meysydd awyr ♦ Porthladdoedd
Contractau****Contractwyr i Wasanaeth
Ambiwlans Gogledd Cymru**

Sefydlwyd

1969

m.hughes
a'i fab**CONTRACTWYR TOI**

2 Hen Aelwyd, Bethesda

☎ 600633

☎ (symudol) 07702 583765

*Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio.
Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant.
Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am
waith diguro.***L. Sturrs
a'i feibion**

sefydlwyd yn 1965

ADEILADWYR**Hen Iard Stesion,
Ffordd y Stesion, Bethesda****Ffôn: 600953**lsturrs@googlemail.com**BARBWR OGWEN**Torri Gwalltiau
Dynion a Phlant
gan Alison**TEMPLE MORRIS A'I FAB**Pob Math o Waliau Cerrig,
Ffensio, Tarmacio a Thirlunio.
Gwaith gyda peiriant tyrchu bach.**07770 900531****01248 600282**jtemplemorris@btinternet.com**Ymgymmerwr adeiladu a
gwaith saer****Ronald Jones**Bron Arfon, Llanllechid
Bethesda

☎ 01248 601052

SAMARIAIDMac
Llinell Gymraeg**0300 123 3011**er gwaith bob nos rhwng
7.00pm ac 11.00pm

Y Gerlan

Ann a Dafydd Fôn Williams,
14/4 Stryd y Ffynnon, Gerlan
☎ 601583

Gwobr gyntaf

Bu i Cadi Roberts, Rallt Uchaf, gael llwyddiant mawr yn Eisteddfod yr Urdd, Y Fflint, gan iddi gael y wobwr gyntaf yn yr Adran Gwaith Cartref, a hynny yn y gystadleuaeth ysgrifennu Rhyddiaith i ddisgyblion Blynnyddoedd 10 ac 11. Mae hyn yn gamp fawr, ac rydym yn ei llongyfarch yn fawr iawn am ei llwyddiant. Rydym i gyd yn falch iawn ohonot, Cadi.

Llongyfarchiadau

Rydym yn llongyfarch Elin Cain, Ffordd Gerlan, ar lwyddo yn ei phrawf gyrru, a hynny ar y cynnig cyntaf. Da iawn, chdi, Elin!

Cartref newydd

Estynnwn ein croeso i Bethan Jonas a Chris Gallagher i'w cartref newydd yn Stryd y Ffynnon. Gobeithiwn yn fawr y byddwch yn hapus yn ein plith.

Cofion

Rydym yn gyrru ein cofion at Len Williams, Ffordd Gerlan, sydd yn yr ysbyty. Wedi iddo dreulio cyfnod yn Ysbyty Gwynedd, mae Len, bellach, yn Ysbyty Eryri. Rydym yn gobeithio'n fawr eich bod yn gwella'n dda, ac y gwelwn ni chi yn eich ôl yn y Gerlan yn fuan, ac rydym i gyd yn gyrru ein dymuniadau gorau ichi am adferiad llwyr a buan.

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Michelle a Ricky, Stryd Hir, ar enedigaeth mab, Billy, brawd bach i Zac a Theo. Rydym yn siŵr fod pawb, yn enwedig y ddau frawd mawr, wedi gwirioni ar gael baban bach arall yn y teulu.

Taid a nain

Llongyfarchiadau i Elen a Dafydd Edwards,

Glanrafon, ar ddod yn nain a thaid unwaith eto, pan anwyd mab bychan, Billy, i'w merch, Michelle, a'i phartner, Ricky. Llongyfarchiadau mawr, hefyd, i Joan Edwards, Glanrafon, ar ddod yn hen nain eto. Ein dymuniadau gorau ichi fel teulu cyfan.

Priodas

Yn ddiweddar priodwyd Arwyn a Lowri Ogwen, Ciltrefnus, yng Nghapel Jeriwsalem. Cafwyd tywydd bendigedig, gyda'r haul yn disgleirio ar y fodrwy. Gobeithio ichi gael diwrnod arbennig, a dymunwn y gorau i chi i'r dyfodol.

Dod adref

Braf yw gweld Gwenfair Jones, Gwernydd, adref am gyfnod gyda'i mam, Jane Jones. Mae Gwenfair yn byw ers tipyn yn Efrog Newydd, ble mae'n ennill bywoliaeth fel actores lwyddiannus. Croeso'n ôl iti i'r Gerlan, Gwenfair.

Damwain

Bu i Caren Brown, Ffordd Gerlan, gael damwain gas wrth redeg yn ddiweddar, pan fu iddi ddisgyn a datgysylltu ei phenelin. Rydym i gyd yn dymuno gwellhad cyflym iti, Caren, ac yn edrych ymlaen i'th weld yn rhedeg o gwmpas yr ardal yn fuan iawn eto.

Arholiadau

Rydym yn dymuno'r gorau i bawb o bobl ifanc yr ardal sy'n sefyll gwahanol arholiadau mewn ysgolion a cholegau yr haf hwn. Pob hwyl i chi!

Llwyddiant eisteddfodol

Rydym yn llongyfarch Parti Cerdd Dant Ysgol Pen y Bryn ar ennill y drydedd wobwr yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Y Fflint. Roedd nifer o blant y Gerlan yn y parti, ac rydym yn eich llongyfarch i gyd yn fawr ar eich llwyddiant.

Arholiadau

Rydym yn dymuno'r gorau i bawb o bobl ifanc yr ardal sy'n sefyll gwahanol arholiadau mewn ysgolion a cholegau yr haf hwn. Pob hwyl i chi i gyd!



Llongyfarchiadau i hogiau Tan Y Garth am wneud yn dda gyda'u gwaith celf yn Eisteddfod yr Genedlaethol yr Urdd Sir y Fflint. Cafodd Idwal 3ydd am waith creadigol 3D i blynnyddoedd 5 a 6. Cafodd Idris 2il am waith creadigol 3D i blynnyddoedd 3,4,5 a 6 (ADY) ac 2il am addurno fabric blynnyddoedd 3 a 4. Cafodd Ithel 1af am waith creadigol 3D i blynnyddoedd 7,8 a 9 (ADY), 1af am waith lluniadu 2D blynnyddoedd 7,8 a 9 (ADY) ac 3ydd am waith creadigol 2D blynnyddoedd 7,8 a 9 (ADY).

MODURDY FFRYDLAS



Profion
M.O.T.

Perchennog
A. L. I. Williams

Stryd Fawr, Bethesda
♦ PROFION M.O.T. ♦

GWASANAETH ♦ ATGYWEIRIO
♦ TEIARS A BATRIS ♦
GWASANAETH TORRI I LAWR
NEU DDAMWAIN

☎ 600723
Ffacs: 605068

Gareth Williams

Trefnydd Angladdau

Crud yr Awel
1 Ffordd Garneddwen
Bethesda

Ffôn: (01248) 600763 a 602707
GWASANAETH DYDD A NOS



Siop Trin Gwallt a Harddwch

Bethesda 600094

Yn arbenigo mewn trin gwallt
merched, dynion a phlant.
Cyngchori, gosod a thorri wigiau
Rhai gwasanaethau harddwch a shafio
(rasal "cut throat")

Oriel Cwm
Cwm y Glo, Caernarfon

Gwasanaeth fframio lluniau o
bob math ar gael ar y safle
Prisiau rhesymol
Arddangosfa gan artistiaid lleol

Ffôn / Ffacs 01286 870882

RICHARD S. HUMPHREYS



Rachub a Llanllechid

Angharad Llwyd Beech, Garnedd Lwyd
7 Llwyn Bedw LL57 3EZ
angharadllwyd@hotmail.com

Capel Carmel

Trefn Gwasanaethau

Mehefin

19 Oedfa. (5.00)

26 Gweinidog. (5.00)

Gorff.

03 Gweinidog (Cymun - 5.00)

10 Parchg. Marcus W. Robinson (5.00)

17 Miss Nerys Jackson (5.00)

Yr Ysgol Sul am 10.30yb. (Bydd yr Ysgol Sul yn dod i ben ar y Sul olaf o Fehefin, ac yn ail-agor ar y Sul cyntaf o Fedi. Diolch i chwi'r plant am fod mor ffyddlon.)

Clwb Dwylo Prysur

Nos Wener am 6.30yb. Croeso cynnes i bawb.

Te Bach

Dydd Llun, 20 Mehefin, yn yr ysgoldy.

2.30 - 4.00. Elw at y Capel.

Gwellhad Buan

Anfonwn ein cofion at yr aelodau sy'n sâl.

Rhodd

Diolch i Alison, "Royal Oak", am ei rhodd garedig i'r capel unwaith eto.

Clwb Hanes Rachub, Caellwngrydd a Llanllechid

I gloi blwyddyn lwyddiannus arall yn hanes y Clwb, cawsom glywed ffrwyth gwaith ymchwil arbennig o ddiddorol gan y Cadeirydd, Mr Dilwyn Pritchard.

Hanes bywyd William Ellis Williams (1881-1962) oedd dan sylw, - gŵr hynod o ddeallus, -peiriannydd, mathemategydd, dyfeisydd ac adeiladwr un o'r awyrennau cyntaf yng Nghymru! Mab i chwarelwr cyffredin oedd William, a oedd yn byw yn "Tyddyn Canol" Rachub am ran helaeth o'i oes.

Cafodd lwyddiant mawr yn y byd academiaidd ym Mhrydain a thu hwnt, gan ganolbwyntio ar beirianeg hedfan, a bu ei waith ymchwil o bwys mawr i adeiladwyr eraill ers hynny. Adeiladodd ddwy awyren, a llwyddodd un i hedfan gan gychwyn ar draeth Llanddona yn Sir Fôn.

Mae carreg yn nodi'r digwyddiad pwysig hwn i'w gweld ar wal ger y caffi yn Llanddona hyd heddiw. Mae doniau eraill William Ellis Williams yn rhy niferus i'w nodi yma, ond efallai cawn glywed mwy amdanynt mewn noson arbennig yn y Clwb Criced (Gorffennaf 17) i ddathlu ei fywyd a'i gyfraniad.

Bydd Hogia'r Bonc yno, yn cael noson o hwyl a chân ac yn bwyta byrgyrs Blaen y Nant! Dewch yn llu i ymuno yn yr hwyl!

Llongyfarchiadau i Gylch Meithrin Llanllechid

Mae Cylch Meithrin Llanllechid wedi derbyn adroddiad arbennig o dda gan ESTYN!

Dywed yr adroddiad fod,

"Cylch Meithrin Llanllechid yn darparu cwricwlwm effeithiol ac mae'n adlewyrchu ethos y Cyfnod Sylfaen yn dda. Mae'r profiadau dysgu yn targedu anghenion a diddordebau'r plant yn llwyddiannus"

"Mae'r arweinydd yn cynllunio'r cwricwlwm ac mae'r staff yn chwarae rhan weithredol gyda'u syniadau a'u mewnbwn yn ddyddiol"

"Mae'r staff yn rheoli ymddygiad plant yn dda iawn".

"Mae'r arweinydd yn rheoli addysgu a dysgu'n dda ac mae'r disgwyliadau yn uchel".

"Mae'r arweinyddiaeth yn gadarn".

"Mae'r cyswllt gyda'r ysgol yn gadarn iawn"

"Yn sgil y ddarpariaeth, y staff diwyd, y pwyllgor rheoli cefnogol a'r arweinyddiaeth bwrpasol, mae'r lleoliad yn darparu gwerth da iawn am arian".

Llongyfarchiadau gwresog i Mrs Debbie Griffiths ar ei harweinyddiaeth ac i weddill y staff am eu gwaith caled. Llwyddiant yn wir!

Ras yr Iaith

Mae Partneriaeth Ogwen yn cydweithio efo Mentrau Iaith Cymru i drefnu cymal o Ras yr Iaith ym Methesda ar y 6ed o Orffennaf rhwng 10.15 a 10.45! Bydd y ras yn cychwyn yma yn Llanllechid ac o amgylch Rachub. Cyfle i ddathlu a rhedeg dros y Gymraeg! Mae gwahoddiad i unrhyw un fod yn rhan o'r ras. Cysylltwch â partneriaeth@ogwen.org neu 01248 602131 os am gymryd rhan.

Cae Swings Foel Ogwen

Y diweddaraf: Er mwyn gwneud lle i roi offer newydd, mae angen symud yr hen garejis. Cartrefi Cymunedol Gwynedd sydd bia nhw. Maent ar y rhestr o'r garejis i'w dymchwel - ond yn y flwyddyn 2023 neu 2024!! Yn amlwg, bydd y plantos yn ddigon hen i fynd i'r Royal Oak erbyn hynny!

Mae'r Cynghorydd Dafydd Meurig wedi dweud wrthynt y bydd yn disgwyl iddyn nhw wneud y gwaith erbyn diwedd y flwyddyn yma, fan bella. Cawn weld be ddaw.

Eisteddfod Fflint

Llongyfarchiadau mawr i Gwydion Rhys ar ddod yn ail ar yr Unawd Llinynnol Bl. 7-9 yn Eisteddfod yr Urdd, Fflint. Roedd yn bleser gwrando ar dy ddawn anhygoel ar y soddgrwth. Llongyfarchiadau mawr i bawb o'r ardal a gymerodd ran yn yr Eisteddfod.

Llongyfarchiadau!

Mae dwy bencampwraig gymnasteg yn ein plith! Yng nghystadlaethau gymnasteg GwynJim yn Ysgol David Hughes y mis diwetha, daeth dwy o ddosbarth meithrin Ysgol Llanllechid i'r brig! Llangyfarchiadau i Medi Thomas ar ddod yn fuddugol, ac i Elsa Wyn am ddod yn drydydd. Roedd yn ddiwrnod llawn hwyl, a channoedd o blant wedi cymryd rhan yn y campau yn ystod y

dydd. Pob hwyl i Medi ac Elsa, gymnastwyr y dyfodol!

Dyweddio

Llongyfarchiadau i Lowri Williams Bryn Eithin ar ei dyweddïad ac Iwan Jones o Llanrug. Pob hapusrwydd i'r ddau ohonoch gan y teulu gyd!

Eisteddfod

Llongyfarchiadau i Gwydion Rhys, Bron Arfon ar ddod yn ail ar yr unawd llinynnol (blynyddoedd 7-9) yn Eisteddfod yr Urdd, Sir y Fflint.

Alice Claire Jones

Ar ar Fai 27ain, bu farw Alice Claire Jones o 1 Tan y Garth Llanllechid, yn heddychlon yng Ngartref Nyrsio Penisarwaen yn 80 mlwydd oed. Priod annwyl Edric, mam gariadus Dafydd, Peter a Julie, ac yn nain a hen-nain hoffus i'w holl wyrion. Yn chwaer annwyl i Esme, a bydd yn golled fawr i'r teulu Lecomte. Bu'r angladd yn Eglwys Crist Glanogwen ddydd Gwener Mehefin y 3ydd, ac yna ym Mynwent Coetmor. Anfonwn ein cydymdeimlad atoch i gyd fel teulu.

CLWB HANES RACHUB A LLANLLECHID

YN CYFLWYNO

'Noson William Ellis Williams'

yng nghwmni

HOGIA'R BONC

yn y Clwb Criced, Bethesda,

Nos Wener, Gorffennaf 15. am 7.00

Tocyn £7

[yn cynnwys byrgyr Blaen y Nant]

[elw'r tocynnau i Ambiwylans Awyr Cymru]

Tocynnau ar gael gan aelodau'r Clwb, neu ffoniwch 01248 601880

CAFFI CYFRANNU I RHANNU STRYD FAWR, BETHESDA

Os am fenthyg DVD, CD neu lyfr mae'r Caffi yn rhedeg

GWASANAETH BENTHYG

(Heb ofyn i chi dalu - ond yn derbyn rhoddion)

Byddent yn croesawu rhagor o DVDs, CDs a llyfrau ar gyfer eu stoc

Carneddi

Derfel Roberts, Llys Artro, Carneddi

600965 hylaw@btinternet.com

Sefydliad y Merched Carneddi

Ar y 5ed Mai cawsom ein cyfarfod Sefydliad mewn lleoliad newydd am y noson, sef ystafell yr hen Ysgol Feithrin yng Nghanolfan Cefnfaes. Diwrnod yr etholiad oedd y rheswm am y newid, ond roedd yn ystafell werth chweil, yn gynnes, a John wedi gofalu bod popeth yn hwylus at ein defnydd.

Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Myfanwy, Glenys, Ceri a Gwen, am wahanol resymau.Yr oedd Heddwen Jones yn gyrru ei chofion at yr aelodau i gyd, aninnau yn meddwl amdani hithau, a Thomas hefyd.

Aeth rhai o'r aelodau i sioe ffasiwn y Rhanbarth yn Llanberis ddiwedd Ebrill i weld arddangosfa ddillad gan "Sws'i's Fashions". Dillad anarferol gyda merched Sefydliad Brynrefail yn eu modelu'n wych.

Yn dilyn y busnes arferol, trafodwyd dau gynnig oedd i'w cyflwyno yng nghyfarfod blynyddol cenedlaethol y Sefydliad.

Pleidleisiwyd i gefnogi'r ddau, sef yr hawl i ofalwyr gael mynediad i ysbytai gyda dioddefwyr Alzheimer, a hefyd y dylai arch-farchnadoedd rannu bwyd i'r tlodion a'r digartref yn hytrach na'i wastraffu.

Cyn terfynnu cawsom ychydig o ymarfer corff ysgafn yng nghwmni ein gwraig wadd, Elaine. Roedd yr aelodau'n teimlo'n well o lawer ar ddiwedd y noson. Ddim yn siŵr sut oedden nhw drannoeth!!!

Diolchodd Gwyneth i Elaine am yr ymarferion, ac i'r marchod am drefnu paned. Gwenda roddodd y wobwr lwcus a Blodwen wnaeth ei hennill.

Rhodd o gadair er cof

Mae teulu'r ddiweddar Olive Jones, 10 Stryd y Dŵr, Carneddi, wedi cyflwyno cadair er cof amdani i Ward Alaw yn Ysbyty Gwynedd. Yn y llun gwelir Gari Jones, gŵr Olive, a'u merch, Alison yn cyflwyno'r gadair i staff Ward Alaw gan gynnwys rhai o'r nyrsys fu'n gofalu amdani tra bu'n glaf yno.



Côr y Penrhyn

Prysurdeb

Yn ystod y mis aeth heibio bu'r côr yn canu darnau gyda Rhys Meirion a Wil Tân yn stiwdios recordio Sain ac yn Eglwys Llandegfan. Recordio rhan o gyfres gyda Rhys yn cyd-ganu â rhai o artistiaid eraill Cymru oedd yr achlysur a bydd y cyfan yn ymddangos ar S4C maes o law. Gan fod Côr y Penrhyn yn barod i ymgymryd â gwaith o'r fath ar fyr rybudd, rydym yn cael gwahoddiadau aml i berfformio gydag

artistiaid eraill fel y profwyd pan berfformiodd y côr gyda 9 Bach beth amser yn ôl. Ar ben hyn oll mae perfformiadau yn Henllys a Llandudno yn ogystal â lleoedd eraill yn golygu bod rhaglen lawn o gyhoeddiadau o flaen y côr dros fisoedd yr haf. Bellach, mae Côr y Penrhyn wedi ennill ei blwyf fel un o brif gorau meibion y gogledd ac yn sicr does dim llawer o gorau all gystadlu o ran nifer ei berfformiadau.

Cymeriadau'r Côr

Cyfres yw hon sy'n rhoi ychydig o fanylion am aelodau Côr y Penrhyn. Yr aelod y mis hwn yw Tom Williams o Hen Barc a ymddeolodd o'i swydd gyda Chartrefi Cymunedol Gwynedd y llynedd.

- Be' ydy dy enw llawn?** - Tom Owen Williams.
- Oed?** - 57.
- Gwaith?** - Wedi ymddeol.
- Lle wyt ti'n byw?** - Hen Barc, Bethesda.
- Un o le wyt ti'n wreiddiol?** - O'r Gerlan.
- Pa dri pheth fuasai'n dy ddisgrifio orau?** - Hapus, Hwyllog, Tal.
- Ers faint wyt ti'n aelod o'r côr?** - Ers 41 o flynyddoedd.
- Pa lais wyt ti?** - Ail denor
- Pam wnest ti ymuno â Chôr y Penrhyn?** - Mynd i ymarferion mil o leisiau efo'r diweddar Harri Roberts, tad Els Bach, a gwirioni efo pŵer tri chôr sef Côr y Penrhyn, Côr Caernarfon a Chôr y Traeth.
- Pa un ydy dy hoff gân yn rhaglen y côr?** - 'Benedictus' gan Robat Arwyn.
- Pwy yw dy hoff ganwr/gantores?** - Mae gen i ddau arwr, Don Williams, y canwr gwlad a Derfel Roberts o'r Ail Fas.
- Beth yw dy farn am ganu pop?** - Mae 'na



rai caneuon pop da heddiw ond dim i'w gymharu â chyfnod euraidd y 70au.

13. **Oes gen ti atgof o ryw ymweliad efo'r côr?** - Cyn belled ag rydw i yn y cwestiwn, dydy'r côr erioed wedi cael trip gwael a gobeithio na chawn ni byth un.

14. **Pa ddiddordebau sydd gen ti y tu allan i'r Côr?** - Pysgota, DIY, Trin yr ardd, hen geir a gwirioni efo Ela, fy wyres fach.

15. **Oes yna rywbeth faset ti'n hoffi gweld y côr yn ei wneud?** - Mae'r côr yn mynd o nerth i nerth ond mi fuasai'n braf cael mwy o aelodau newydd, yn enwedig rhai ifanc, oherwydd dyna yw dyfodol unrhyw gôr.

Cyfeillion Ysbyty Gwynedd

Dymuna'r Cyfeillion ddiolch yn fawr iawn i Mrs. Val Amos, Glanogwen, a'r teulu am eu rhodd garedig tuag at waith y Cyfeillion er cof am y diweddar Mr. Jim Amos.

Ar ddydd Iau, 2 Mehefin, daeth Mr. Allan Jones, cadeirydd Seiri Rhyddion Segontium, Caernarfon, i Ysbyty Gwynedd i gyflwyno rhodd o £500.00 i Mr. Joe Hughes, cadeirydd y Cyfeillion.

Cofiwch am y diwrnod agored yn 29 Ffordd Ffrydlas, cartref Eira a Joe Hughes, ar ddydd Llun, 27 Mehefin o 10.00 y bore tan 10.00 yr hwyr. Mynediad £1.00. Paned, bwrdd gwerthu, raffi a sgwâr lwcus.

Hefyd, Gerddi Agored Pentref Llandygai ar ddydd Sadwrn, 9 Gorffennaf.

Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn?



25 Mehefin - Neuadd Ogwen - Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen.
09 Gorffennaf - Caffi Coed y Brenin - NSPCC
16 Gorffennaf - Cefnfaes - Ward Alaw (er cof am Eirian Jones.)
10 Medi - Cefnfaes - Sefydliad y Merched Carneddi
24 Medi - Cefnfaes - Cronfa Goffa Tracey Smith.
22 Hydref - Cefnfaes - Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen.
29 Hydref - Cefnfaes - Eglwys Sant Cedol, Pentir
12 Tachwedd - Caffi Coed y Brenin - NSPCC
19 Tachwedd - Cefnfaes - Neuadd Talgai.
26 Tachwedd - Cefnfaes - Plaid Cymru
26 Tachwedd - Neuadd Ogwen - Plaid Lafur (Ffair Nadolig)

Pwysig
Os yn trefnu Bore Coffi yn ardal Bethesda, bydd y rhestr uchod yn gymorth i chi ddewis dyddiad gwag.
Gallwch wedyn gynnwys eich dyddiad chi ar y rhestr hon.
Bydd yn cael ei diweddarau ac yn ymddangos pob mis.
Anfonwch y manylion at Neville Hughes (600853).

Marchnad Ogwen

Gorffennaf 9ed
Neuadd Ogwen, 9.30am - 1.30pm

Awst 13eg
Neuadd Ogwen, 9.30am - 1.30pm

Medi 10fed
Neuadd Ogwen, 9.30am - 1.30pm

Bwydydd, Crefftau, Lleol

www.marchnadogwen.co.uk
Facebook

CANOLFAN CEFNFAES

GYRFA CHWIST

Mehefin 28
Gorffennaf 12 a 26
am 7:00 o'r gloch. Croeso i bawb

CAFFI COED Y BRENIN

BORE COFFI
NSPCC
Sadwrn, 9 Orffennaf
10:00 - 12:00 Mynediad: £1

CANOLFAN CEFNFAES

BORE COFFI
Er cof am Eirian Jones
Elw At Ward Alaw
Sadwrn, 16 Orffennaf
10.00 - 12.00

GERDDI AGORED
PENTREF LLANDYGAI

Sadwrn, 9 Gorffennaf
10.30yb - 4.30yh

Stondinau Crefftau, Planhigion
a Lluniaeth ysgafn
Mynediad - £5 y pen

Yr elw at Cyfeillion
Ysbyty Gwynedd
6 GARD D AR AGOR

Cyfeillion Ysbyty Gwynedd

DIWRNOD AGORED
yn
29 Ffordd Ffrydlas, Bethesda

Dydd Llun, 27 Mehefin
10.00 yb - 10.00yh

Trwy garedigrwydd
Joe ac Eira Hughes

Mynediad £1

Llais Ogwan

I hysbysebu yn **Llais Ogwan**
Neville Hughes 600853
(nev_hughes@btinternet.com)

Neuadd Ogwen

Bore Coffi
Eisteddfod Dyffryn Ogwen
Sadwrn 25 Mehefin

10.00 - 12.00
Mynediad £1

Eglwys Annibynnol Bethlehem Talybont
Te Mefus
yn Festri Bethlehem
7.00 o'r gloch nos Fawrth
5 Gorffennaf

Mynediad £2.00 Elw at y capel

GARDDWEST 3 EGLWYS

2 Gorffennaf
1.00 i 4.00 y prynhawn

Ficerdy Pentir
Raffl, Amryw Stondinau,
Tombola, Cacennau, Gemau
Plant, Lluniaeth, BBQ a mwyr
Mynediad i oedolion - £2
Plant 50c

Agorir gan y seren rhyngwladol,
David Essex

Yr elw at Eglwysi y Santes Fair
Sant Tegai a St Cross

YSGOLDY MAES Y GROES
TALYBONT

TE MEFUS
SADWRN, 18 MEHEFIN
AM 2 O'R GLOCH
MYNEDIAD: £2.50
ELW AT EGLWYS ST. CROSS

RHAG-HYSBYSIAD

SÊL PEN BWRDD

yn Llys Dafydd
(Neuadd Ogwen os yn glawio)
Bore Sadwrn, 30 Gorffennaf
am 9:30
£5 y bwrdd
Rhagor o wybodaeth:
07789 916166 - 01248 600872

ELFYN THOMAS TEITHIAU 2016**TAITH HANES CYMRY LLUNDAIN** dan arweiniad **Gari Wyn****15 – 18 Medi 4 Diwrnod £499**

3 Noson Gwely a Brecwast. Cinio 2 Gwrs yn y George & Vulture
Tocyn Diwrnod Underground. Adloniant Canolfan Cymry Llundain: Cinio Sul
Odette's. Taith hanesyddol dam o ardal y 'City' yn Llundain yn ymweld â'r
mannau ble roedd rhai o Gymry amlwg Llundain yn byw a gweithio.

Teithiau eraill:

23 Meh	Royal Highland Show, Caeredin	→ 4 DIW £299
4 Gorff	Iwerddon Ddoe a Heddiw	→ 5 DIW £439
8 Gorff	Grand Prix Prydain Formula 1 - Silverstone	→ 3 DIW £349
9 Gorff	Sioe 'All Wales Truck & Transport' + Tudur Wyn	→ 3 DIW £159
23 Gorff	Ynysoedd Orkneys a Shetland	→ 6 DIW £699
31 Gorff	Eisteddfod Genedlaethol	→ 6 DIW £349
31 Gorff	Eisteddfod Genedlaethol/a'r Gymanfa	→ 3 DIW £159/£174
4 Awst	Eisteddfod Genedlaethol	→ 4 DIW £239
6 Hyd	Rhine Ablaze Boppard a Penblwydd Elfyn yn 50	→ 6 DIW £499
14 Hyd	1,000 o Leisiau Corau Meibion. Royal Albert Hall	→ 3 DIW £279
22 Hyd	Awstria Swistir a'r Amlaen Gyda Tudur Wyn	→ 7 DIW £539
23 Rhag	Taith Nadolig Briste	→ 5 DIW £459

01407 731080 → 0745 0223332

Teithiau Elfyn Thomas Tours
Y Depo Fysiau. Llanfaethlu
Ynys Môn. LL65 4NW
Rhan o Grŵp O R Jones

ELFYN THOMAS**Siân Gwenllian**

Aelod Cynulliad Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch
AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch â'r swyddfa
ym Mangor neu yng Nghaernarfon

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
(01248) 372948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
(01286) 672076

Sian.Gwenllian@cynulliad.cymru

JR SGAFFALDIAU Cyf. JR
SCAFFOLDING Ltd.

YR IARD, FFRDD STESION, BETHESDA,
GWYNEDD LL57 3NE
ebost: sales@jrscaffolding.co.uk

Ffôn/Ffacs:

01248 601754

07770 568743 (symudol)

**Sesiynau Siarad i Ddysgwyr**

11.00 -12.00, Ail Ddydd Sadwrn bob mis ym
Marchnad Ogwen

11.00 -12.00, 4ydd Dydd Sadwrn bob mis yng Nghaffi
Fitzpatrick's

**Am fwy o wybodaeth neu i wirfoddoli yn y sesiynau
siarad, cysylltwch â Meleri ar 01248 602131**

SIOP OGWEN

Cardiau, CD'S, Coffi Poblado, Crysau-T a Hwdis Cowbois,
Crefftau, DVD's, Golwg, Llyfrau, Lluniau a llawer mwy!

Am fan hwylus ar y Stryd Fawr, cofiwch am Siop Ogwen am
eich holl anghenion siopa! Galwch draw neu rhwch ganiad
i'r Siop am ragor o wybodaeth.

33 Stryd Fawr, Bethesda (Drws nesaf i Neuadd Ogwen)
partneriaeth@ogwen.org

01248 208 485**MODURON PANDY Cyf.**

MOT Diesel a Chatalydd
Atgyweirio MOT
Gwasanaethu Cerbydau
Cydbwyso Teiars
Batris
Tracio

01248 600619

moduronpandy@yahoo.com
www.moduronpandymotors.co.uk

Tregarth, Bangor,
Gwynedd LL57 4AY

**C.L. JONES****Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu****Bethesda 01248 600045****Caernarfon 01286 676070****Llangefni 01248 751677**

Cludiant am ddim yn lleol

Stoc helaeth ac amrywiol

Croeso i gyfrifon masnachol

Staff cyfeillgar a phroffesiynol

Popeth ar gyfer y diwydiant a D.I.Y

Mynytho 01758 730768**LLanrwst 01492 640794****Siop yn 01492 640794****Llanrwst**

Mae Arddangosfa Ceginau ac Ystafelloedd Ymolchi yn ein cangen yn Llangefni a'r Siop yn Llanrwst

Rhiwlas

Iona Jones, 17 Bro Rhiwen, Rhiwlas
☎ 01248 355336

O gofnodion y Cyngor Cymuned ynglyn â baw cŵn:

Biniau Baw Cŵn - Derbyniwyd llythyr yn datgan fod y biniau yn gyffredinol yn derbyn gwasanaeth gwagio wythnosol, ond wrth gwrs yn ddibynnol ar ddwysedd poblogaeth, bydd rhai yn derbyn mwy aml. Mae yn DROSEDD i hongian y bagiau ar weiren bigog, ac mae modd gosod dirwy ar y sawl sydd yn cario allan y drosedd.

Os ydych yn berchenog ar gi **unai rhowch y bagiau mewn bin pwrpasol i faw cŵn, neu ewch a fo adref.**

Newid aelwyd

Wedi blynyddoedd o fyw ym Mro Rhiwen y mae Ifan Owen bellach yn byw yn Rhyd Fadog yn Neiniolen. Gan fod Sharon yn byw yn Ninorwig mae'n siwr y bydd yn parhau â'i ddiddordeb mewn ceffylau. Pob dymuniad da i ti Ifan yn dy gartref newydd.

Eisteddfod yr Urdd

Fe fu newid i drefn un o brif sersmoniau Yr Eisteddfod eleni, gyda phwyslais cystadleuaeth Medal y Dysgwyr ar gyfarthrebu yn y Gymraeg yn hytrach na llunio darn ysgrifenedig.

Un o'r tri a ddaeth i'r brig wedi'r sesiynnau yng Nglan Llyn oedd Hannah Cook sy'n byw yn Garreg Lwyd. Dim ond pymtheg oed yw Hannah a rhyw gwa tair mlynedd yn ôl y symudodd y teulu i'r pentref o Bambury, mae'n mynychu Ysgol Dyffryn Ogwen ac wedi ymroddi i ddysgu'r iaith.

Myfyrwraig o Brifysgol Bangor ddaeth yn fuddugol, ond rydym yn hynod falch o lwyddiant Hannah ac estynnir ein llongyfarchiadau iddi. Da iawn ti Hannah.

Braf oedd gweld Elliw Mai yn arwain yn yr Eisteddfod eleni eto ac yn cadw trefn ar y cystadleuwyr a'r gynulleidfa.

Gwellhad

Mae sawl un heb fod yn dda yn ddiweddar, y mae Mrs Meirwen Owen, Fron Deg yn Ysbyty Eryri ac y mae Mr John Huw Evans yn Ysbyty Gwynedd hefyd. Mae'n debyg iddo dderbyn rhifyn Mai o'r Llais un prynhawn a mynd ati i wneud y croesair ac wedi ei orffen erbyn ymweliad y teulu y noson honno! Llongyfarchiadau iddo.

Y mae Mrs Beryl Griffiths, Castell, yng Nghartref Plas Garnedd yn Llanberis ac y mae Mrs Enid Williams, Cae Glas yng Nghartef Nyrsio Penisarwaun ac fe anfonwn ein cofion atoch i gyd.

Priodas

Llongyfarchiadau i Dylan Owens, Fferm Glanrhyd, ac Elen o Gaernarfon ar eu priodas yn ddiweddar yng Ngwesty'r Fictoria yn Llanberis. Y maent wedi ymgartrefu yn Waunfawr, a'n dymuniadau gorau i chi eich dau.

Diolch

Diolch i'r canlynol am helpu eleni gyda'r casgliad o dŷ i dŷ tuag at Cymorth Cristnogol: Steffan a Debbie Job, Gwen Aron ac Alison Roberts. Fe fydd Dilys Parry hefyd yn casglu yn flynyddol ond heb fod yn ddgon da ei hiechyd eleni, brysia wella Dilys.

Clwb Rhiwen

Y mae'r merched wedi dechrau gwau y blancedi ar gyfer yr Uned Mamolaeth yn Ysbyty Gwynedd. Diolch i Mair am drefnu i gael y dafedd ar ein cyfer.

Hefyd fe aeth rhai o'r aelodau i ymweld â Storiell ym Mangor ac wedi mwynhau yno ac yn sicr am ail ymweld â'r amgueddfa a chaffi Seibiant.

Eisteddfod Môn

Daeth cyfnod Annes Glyn fel Derwydd Gweinyddol Eisteddfod Môn i ben eleni. Bu yn y swydd am dair blynedd ac wedi mwynhau'r profiad yn arw.

Codi arian

Y mae "Snowdon Rocks," yr elusen a sefydlwyd gan y canwr Mike Peters yn digwydd eleni eto a llynedd bu Geogio Zanier Brown, Bron y Waun yn codi arian at yr achos. Yn ddeuddeg oed mae wedi cefnogi sawl elusen a hyd yma y mae wedi casglu £600 at amryiol achosion da. Eleni nid yw'n cymryd rhan fel unigolyn ond yn hytrach fel un o dmi o dri sef Ilaria ei fam a Laura o'r Eidal. Gellir cyfrannu i'r tîm drwy'r wefan "Just Giving", neu'n uniongyrchol i'r teulu.

Mae tad Ilaria yn wreiddiol o'r Eidal ond bellach wedi byw ym Mhen Llyn ers tro. Rhai blynyddoedd yn ôl fe dreuliodd Ilaria bedair blynedd yn yr Eidal gyda'r teulu er y bwriad oedd aros yno am bedwar mis. Roedd am gael mwy o ymarfer mewn siarad Eidaleg ac am ddod i adnabod y teulu'n well. Roedd yn aros mewn pentref bach o'r enw Padova, ac fe ddaeth yn ffrindiau â llawer yno.

Merch un o'r ffrindiau yma ydy Laura ac mae'n dod i aros i Rhiwlas am gyfnod ym Mis Mehefin. Mae ar ei blwyddyn olaf yn yr ysgol ac yn edrych ymlaen yn arw at ei gwyliau yma. Croeso i Rhiwlas Laura a mwynha dy gyfnod yma. Tybed a fydd Cymru yn chwarae yn erbyn yr Eidal yn y pencampwriaeth Ewropeaidd?

Beirniadu yn Eisteddfod yr Urdd

Cafodd Manon Steffan Ros gynt o Bryn Llus, y fraint o feirniadu'r fedal ddrama yn yr Eisteddfod. Hefyd roedd lansiad o'i drama "Dau Wyneb" yng nghwmni Manon a myfyrwyr Y Drindod Dewi Sant, Caerfyrddin. Yn ogystal mae'r ddrama hon wedi ei chynnwys fel drama destun ar gyfer ar faes llafur TGAU 2016. Yn ystod y lansiad roedd y myfyrwyr yn cyflwyno perfformiad o'r ddrama. Llongyfarchiadau Manon, mae'n braf clywed am dy lwyddiannau.

Nant Ffrancon

Capel Nant y Benglog

Mehefin

19 Parchg. Huw Dylan.
26 Mrs. Mair Penri Jones.

Gorffennaf

03 Teulu Talbraich.
10 Nest Tudur.
17 Mr. Cledwyn Williams.

Oedfaon am 2 o'r gloch oni nodir yn wahanol. Croeso cynnes i bawb.

Mynydd Llandygái

Theta Owen, Gwêl y Môr,
Mynydd Llandygái ☎ 600744

Eglwys St. Ann a St. Mair

Mehefin

19 Boreol Weddi
26 Cymun

Gorffennaf

3 Gwasanaeth Teuluol
10 Cymun
17 Boreol Weddi

Dechreuir am 9.45 y.b. Estynnwn groeso cynnes i chwi oll ymuno â ni yn ein gwasanaethau.

Mae nifer o'n cyfeillion yn sâl ar hyn o bryd. Anfonwn ein cofion cywiraf atoch i gyd. Brysiwch wella!

Diolch

Mae Dafydd Pritchard, Rhes Elfed, Bethesda, eisiau diolch o galon i bawb oedd yn y bore coffi yng Nghaffi Coed y Brenin, ar Sadwrn, 28 Mai. Roedd y caffi yn llawn, a phawb wedi cyfrannu yn hael iawn.

Gwnaed elw o £415.00 tuag at Glwb Peldroed Mynydd Llandygai. Diolch yn fawr i Karen, Linda a Bronwen am helpu. Bore llwyddiannus, a hefyd tymor llwyddiannus i'r tîm a orffennodd yn bedwerydd o'r top!

Ysbyty

Drwg oedd clywed nad yw Mrs. Margaret Oliver wedi bod yn dda ac wedi treulio cyfnod yn Ysbyty Gwynedd. Cofion cynnes atoch, gan fawr obeithio eich bod yn gwell.

Arholiadau

Mae'r bobl ifainc yn brysur ynghanol arholiadau. Pob lwc i chi i gyd.

Clwb y Mynydd

Bydd y Clwb yn mynd am drip i'r Wyddgrug a Tweed Mill. Dymunwn ddiwrnod hapus - a haul, gobeithio!

Llais Ogwan

Croesair Llais Ogwan

AR DRAWS

- 1 Un o elfennau cystadlu mewn eisteddfod (6)
- 4 A gaed amser mor rhyfedd (4)
- 8 I dwb Nel aed a sypyn o ddillad (6)
- 9 e.e. Y Groes Goch neu Cymorth Cristnogol (6)
- 10 Gŵr neu wraig (5)
- 11 Cwmp eira (7)
- 13 Cythraul drwg ! (4)
- 15 Doeth yw ei dorri cyn plymio i'r dŵr oer (3)
- 16 Â (4)
- 18 Ardderchog yw agor mewn rhol (7)
- 20 Rhacs jibidêrs (5)
- 23 Cartref dros dro i'r bugail gynt (6)
- 24 2.54 centimetr (6)
- 25 I yrru ceffyl Robin-di-rip efallai (*hwangerdd*) (4)
- 26 Ongl yn cau. Mae pedair yn y sgwâr (6)

I LAWR

- 1 Gwn (7)
- 2 Recordio llun, fo a Dafydd bach yn chwil yn y canol (5)
- 3 Ras traws gwlad i geir (4)
- 5 Dwbl ; mewn dwy ffordd (7)
- 6 Mab Branwen a Matholwch (5)
- 7 Gwrthryfel neu storm (7)
- 12 Cylchgrawn sy'n un o ddeuddeg mewn blwyddyn (7)
- 14 Cynyddu mewn rhif (7)
- 17 Gwarchod (7)
- 19 Gwarth ac anfri (5)
- 21 Un o gampweithiau Stradivarius (5)
- 22 Amod (*anagram*) (4)

ATEBION CROESAIR MAI 2016


AR DRAWS 6 Camwy, 7 Ehangu, 9 Agored, 10 Crwban, 11 Peilonau, 13 Arddu, 14 Sbïo, 16 Disgyrchu, 18 Mimosa, 20 Indiad, 21 Anelu, 22 Carat

I LAWR 1 Mangre, 2 Chwarel Dorothea, 3 Celc, 4 Dacw Mam Yn Dwad, 5 Euraid, 8 Adynod, 12 Unsain, 15 Brigâd, 17 Chwarae, 19 Alun

Y gwall mwyaf a ymddangosodd y tro hwn oedd ‘puraidd’ yn lle ‘euraidd’. Hefyd cafwyd ‘manwy’ yn hytrach na’r ateb cywir ‘camwy’. Ond llongyfarchiadau i’r canlynol am atebion cywir : Rosemary Williams, Elizabeth Buckley, Tregarth; Barbara Jones, Talybont; Doris Shaw, Bangor; Ellen Whitehouse, Birmingham; Elfed Evans, J.R. ac M.A. Jones, Karen a Tom Williams, Wendy Eccles, Llanllechid; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Rita Bullock, Gaynor Elis-Williams, Anne Smith, Bryn a Gwen Evans, Ann Carran, David Morgan, Bethesda; Dafydd Evans, Penisarwaun; Gwenda Roberts, Rhosmeirch; John Huw Evans, Rhiwlas; E. E. Roberts, Llanberis. Yr un sy’n gyntaf allan o’r het am y wobr y tro yma yw ymgais Emrys Griffiths, 5 Llwyn, Rhosgadfan, Caernarfon, Gwynedd. LL54 7HN

Atebion erbyn 1 Gorffennaf, 2016 i ‘Croesair Mehefin’, Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda. LL57 3PD

(*Peidiwch a’i gadael hi’n rhy hwyr. Rhai 3 diwrnod yn ddiweddar!!*)





Hywel Williams

Aelod Seneddol

Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon:

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR

☎ (01248) 372 948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE

☎ (01286) 672 076

williamshy@parliament.uk

Atebion erbyn 1 o Fehefin 2016 i ‘Croesair’

Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda LL57 3PD

Enw

Cyfeiriad

Contractwyr Trydanol

Jones & Whitehead Cyf

Swyddfa Gofrestredig

Penrall, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU

Ffôn: 01248 601257

Ffacs: 01248 601982

E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk









Ysgol Dyffryn Ogwen

Eisteddfod yr Urdd 2016

Llongyfarchiadau i'r canlynol sydd wedi ennill gwobrau yng nghystadlaethau cartref yr Eisteddfod:

Cadi Roberts – 1af Rhyddiaith blwyddyn 10 ac 11.
Fe gafodd Cadi ei gwobrwyo fel rhan o seremoni'r cadeirio ar ddydd Gwener yr Eisteddfod.

Gwydion Rhys – zil Cyfansoddi blwyddyn 7 ac 8
Beca Nia – zil Rhyddiaith blwyddyn 9
Buddug Roberts – 3ydd Ymsonau dan 25 oed

Hefyd, llongyfarchiadau mawr iawn i Ithel Morris sydd wedi derbyn gwobrau lu yn y cystadlaethau Celf;

Cyntaf – Gwaith Lluniadu 2D i blant gydag anghenion dysgu ychwanegol

Cyntaf – Gwaith Creadigol 3D i blant gydag anghenion dysgu ychwanegol

Trydydd – Gwaith Creadigol 2D i blant gydag anghenion dysgu ychwanegol.



Ithel Morris

DAFYDD CADWALADR

Cynhyrchion Coedlannol

Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i'r ardd
Ffensio a thorri coed
Asiant system gwresogi trwy losgi coed

01248 605207



Pêl-droed

Bu dau dîm o enethod blwyddyn 7 a blwyddyn 8 a 9 cymysg yn cystadlu mewn twrnamaint pêl-droed yn Llangefni yn ddiweddar. Cafodd y ddau dîm brynhawn llwyddiannus.

Rygbi Merched

Ysgol Dyffryn Ogwen 60 – 10 Ysgol Syr Hugh Owen

Ceisiau gan Sophie Ellis x 2, Efa Williams x 2, Lowri Davies a Ceri Williams.
Trosiad gan Sophie Ellis ac Efa Williams.
Da iawn genod!

Ymweliad Blwyddyn 9 i Brifysgol Bangor – Ieithoedd Modern

Aeth criw o wyth disgybl blwyddyn 9 i Brifysgol Bangor am ein bod yn rhan o

Gynllun Mentora Ieithoedd Modern cyn Pasg.
Yn ystod y cynllun fe weithiodd myfyrwraig o'r Brifysgol gyda ni i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd dysgu Ieithoedd Modern, a chafwyd nifer o weithgareddau diddorol. Yn gyntaf cawson ginio blasus cyn cael cyflwyniad gan Dr Jonathan Ervine, Pennaeth yr Adran Ieithoedd Modern yn y Brifysgol, am bwysigrwydd parhau i ddysgu ieithoedd a'r cyfleoedd sydd ar gael yn y dyfodol. Cafodd pawb dystysgrif am gymryd rhan yn y cynllun.
Cawson wedyn gyfle i ymweld â'r Adran Ieithoedd Modern a cael sgwrs fer efo rhai o'r myfyrwyr. Yn olaf roedd sesiwn iaith Almaeneg gyda'r myfyrwraig, cawson gwis am y wlad ac wedyn gyfle i ddysgu rhai geiriau Almaeneg. Guten Tag!
Osian Sanderson Bl 9



Llais Ogwan

I hysbysebu yn **Llais Ogwan Neville Hughes**
600853 (nev_hughes@btinternet.com)

Ysgol Pen-y-bryn

Lego

Cafodd blant blwyddyn 5 a 6 gyfle i gymryd rhan mewn gweithdy ‘technocamps’, sef gweithdy am Lego! Trwy’r bore bu’r plant yn creu robot gyda Lego a oedd yn cael ei reoli gan gyfrifiadur ac yna yn y pnawn yn cael cystadleuaeth i weld pwy oedd wedi creu’r robot mwyaf effeithiol! Roedd yn ddiwrnod difyr dros ben ac yn ffordd wych o gael y plant i ddeall codio. Diolch o galon i Illtyd, Joe a Kieran o Brifysgol Bangor am gynnal y gweithdy.

Eglwys Glanogwen

Yn ddiweddar cawsom fynd ar ymweliad i Eglwys Glanogwen fel rhan o’n gwaith ar Gristnogaeth. Rhoddodd y Parchedig Chritinina daith hynod o ddiddorol i ni o amgylch yr eglwys, gan egluro beth oedd prwpas ac arwyddocâd gwahanol rannau o’r eglwys.

Dysgom am y fedyddfaen, y ffenestri lliw, yr allor, y ddarllenfa a’r puplud. Eglurodd hefyd i ni pam fod ficeriaid yn gwisgo mantelli o wahanol liw ar adegau gwahanol o’r calendr Cristnogol.

Ar ddiwedd yr ymweliad cawsom gyfle i gymryd rhan mewn gwasanaeth byr a chanu Calon Lan yn ddeulais! Diolch yn fawr iawn i’r ficer, ac i warden yr eglwys am eu croeso ac am brynhawn diddorol ac addysgol iawn.

Celf

Llongyfarchiadau gwresog i Elin Owen ar ei champ arbennig o ddod yn fuddugol yng nghystadleuaeth Celf a Chrefft Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 2016. Daeth i’r brig yn y gystadleuaeth Argraffu i flynyddoedd 3 a 4, a bydd ei gwaith buddugol i’w weld yn yr arddangosfa Gelf a Chrefft ar y maes yn ystod wythnos yr Eisteddfod yn Sir y Fflint. Cofiwch fynd yno i’w weld.

Llwyddiant chwaraeon

Llongyfarchiadau mawr i Gethin o ddosbarth Carnedd am ei lwyddiant anhygoel yn y Gala nofio a gynhaliwyd ym Mangor yn ddiweddar. Enillodd dair medal ynghyd a’r tlws am y nofiwr gorau o fechgyn blwyddyn 4. Ardderchog wir.

Criced

Dyma griw o ddisgyblion blwyddyn 5 a 6 yn



derbyn hyfforddiant criced gan Sam o ‘Cricket Wales.’ Mae Sam yn mynd i fod yn gweithio â holl ddisgyblion blwyddyn 5 a 6 am weddill y tymor. Mae pawb yn mwynhau’r sesiynau ac yn arddangos sgiliau gwych yn barod!!

Pnawn Hwyl

Cynhaliwyd Pnawn Hwyl a drefnwyd gan y rhieni er mwyn casglu arian ar gyfer taith y côr i’r Eisteddfod ac i brynu adnoddau.

Cafwyd pnawn llwyddiannus dros ben! Diolch o galon i Matthew Wharton (tad Robyn blwyddyn 5) am ddod a chwrs Golff Gwyllt ar yr iard a ddaeth ag ochr gystadleuol yr oedolion allan, heb son am y plant!!

Diolch yn fawr i bawb a ddaeth a chacenni ac unrhyw gyfraniadau eraill. Diolch hefyd i’r holl rieni a ddaeth i helpu yn ystod y pnawn. Casglwyd dros £800 - swm anhygoel!!

Noson Gwricwlaidd

Ar 25 Mai, cynhaliwyd noson gwricwlaidd hynod lwyddiannus. Cynlluniwyd y noson yn seiliedig ar ymatebion rhieni i holiadur ac felly cafwyd cyflwyniadau am waith y gwahanol ddosbarthiadau, Y Siarter Iaith a diogelwch y we. Roedd y neuadd yn orlawn a braf oedd gweld gymaint o gefnogaeth. Diolch o galon i bawb a ddaeth ac yn benodol i’r plant am eu gwaith caled. Hefyd, diolch i’r Grŵp Effeithiolrwydd am fod yng ngofal y noson ac i’r staff am ddysgu’r plant

Llwyddiant unigol

Llongyfarchiadau mawr i Dylan Hughes sydd wedi bod yn cymryd rhan yng nghystadleuaeth Athletau Gogledd Cymru yn Wrecsam dros y penwythnos.

Mae Dylan bellach yn bencampwr yn y ras 75m wedi iddo gipio’r fedal aur. Yn ogystal â

hyn daeth yn ail ac yn drydydd mewn dwy ras arall.

Mae Dylan hefyd wedi ei ddewis i gynrychioli Eryri yn y tîm criced ac wedi bod yn chwarae mewn cystadleuaeth yn ddiweddar. Da iawn ti!

CHRIS GRIFFITHS
Trwsio ffenestri upvc, drysau, cloeau, bachau, twll llythyrau ac unedau gwydr wedi chwythu



18 Mill Lodge
Llandegfan
Ynys Môn
LL59 5YB
☎ 01248 713 369 neu 07813 455653

Pob math o waith trydanol
Huw Jones
Ymgymmerwr Trydanol
Trydanwr cymwysedig gyda phrofiad diwydiannol
Y Wern, Gerlan, Bethesda
Gwynedd LL57 3ST
Ffôn: 01248 602480

BYSUS
D. J. Owens
RHIWLAS

01248 361044 a 07771 634195



BYSUS O 25 I 57 SEDD AR GAEL AR GYFER EICH HOLL ANGHENION TEITHIO - TRIPIAU, PRIODASAU, PARTIŌN AC ATŷ.
Bysus Gwyrdd Rhiwlas
GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY SEFYDLWYD 1997 PERCHENNOG: DERFEL OWENS

Ysgol Llanllechid

Rhagoriaeth yn Ysgol Llanllechid
Mae'n ffrind gennym gyhoeddi fod Ysgol Llanllechid wedi derbyn adroddiad arbennig o dda gan arolygwyr ESTYN ym mis Mawrth eleni a daethpwyd i'r casgliad fod agweddau o ragoriaeth yn ein hysgol, sy'n adlewyrchu'r profiadau deinamig a'r safonau uchel.

Mae'r adroddiad yn tystio i ymdrechion ein disgyblion; ymroddiad yr holl staff, cefnogaeth ein rhieni ac arweiniad ein Llywodraethwyr.

Y Ci Defaid
Rhwydd gamwr hawdd ei gymell – i'r mynydd
A'r mannau anghysbell;
Hel a didol diadell
Yw camp hwn yn y cwm pell. *Thomas Richards, Wern, Llanfrothen 1948*

Ar ôl bod wrthi'n arlunio'r darlun bendigedig o'r ci defaid, gan efelychu arddull Kyffin Williams, a dysgu'r englyn ar y côf, aeth



dosbarth Mrs Marian Jones i wyllo taid Erin Jones, Mr Kevin Eccles yn dangos ei ddoniau gyda'i gwn defaid. Roedd Jess a Cadi ar eu gorau, - y ddwy yn gwrando'n astud ar y cyfarwyddiadau.

Rhyfeddod oedd deall sut oedd un ast yn dysgu oddi wrth y llall. Roedd Erin yn falch o gael dangos ei dafad hi i weddill y plant, sef yr unig ddafad ddu yn y cae! Diolch yn fawr iawn i Kevin a Wendy Eccles am y croeso, ac am drwytho ein plant mewn sgiliau cefn gwlad.

Plannu tatws
Diolch i Idris, Idwal a Marged Temple Morris, Fferm Tan y Garth, Gerlan, am gasglu tail gwartheg i ni ar gyfer plannu tatws. Disgwyliwn yn eiddgar at gael gweld ffrwyth ein llafur!

Dysgu am Kenya
Afonydd Cymru a'r byd oedd maes astudiaeth y disgyblion hynaf yn ystod yr hanner tymor hwn. Braint oedd croesawu Karen Brock, sef mam Ursula, sydd wedi treulio amser yn byw yng ngogledd yr Affrig. Croesawyd Mrs Brock i'r dosbarth i siarad gyda'r plant a soniodd am fywyd ar y fferm gan ganolbwyntio ar ffrind iddi oedd yn gweithio fel ffermwraig; dynes arbennig o'r enw Mary. Roedd Mary yn gofalu am ei theulu ac yn gweithio'n galed yn tyfu bwyd ar y fferm. Pan oedd yr hŷn yn ffarfriol roedd y cnwd yn lluosog, ond stori hollol wahanol oedd hi mewn sychder. Cawsom fore bendigedig yng nghwmni Karen ac roedd yn agoriad llygad cael cymharu Cymru a Kenya.

Cwrwgl
Ar fore hyfryd o haf, daeth Mr Haydn Davies a'i gwrwgl ar iard yr ysgol. Magwyd Mr Davies yn Sir Aberteifi. Soniodd wrth y plant am ei ddyddiau yn rhwyfo ar yr Afon Teifi yn ei gwrwgl arbennig wedi ei wneud o'r goeden



onnen a'r gollen ynghyd a calico a bitumen.

Dyma oedd ei gwrwgl personol ef - y cwrwgl yr oedd ef yn ei defnyddio i bysgota a dal eogiaid. Cawsom glywed am lawer o'i anturiaethau difyr yn y cwrwgl, ac ambell gyfrinach hefyd!!

Diolch i Mr Davies am ei sgwrs ddiddorol dros ben ac am roi'r cyfle i'r plant gael profiad gwerth chweil.

Y Douglas Arms
* Lluniaeth i Bartion * Te Cynhebrwng *
* Gardd Gwrw * Te a Choffi *
Oriau Agor
Llun – Gwener: 6.00 - 11.00
Sadwrn: 3.30 – 12.00
Sul: Pnawn 1.00 - 4.00, Hwyr 8.00 -11.00
01248 600219
www.douglas-arms-bethesda
Cewch groeso cynnes gan
Gwyn a Christine

Ysgol Llandygai

Llongyfarchiadau
Mae holl ddisgyblion, rhieni, staff a llywodraethwyr yr ysgol yn dathlu ac yn llongyfarch Mr Elfed Morgan Morris ar gael ei benodi yn Brifathro'r ysgol yn ddiweddar.

Ymweliadau addysgol
Bu Dosbarth Enfys yn yr archfarchnad Tesco gan ddilyn taith bwydydd o'r fferm i'r siop. Hefyd cawsant gyfle i bobi bara. Profiad gwerthfawr iawn.

Hefyd, bu Dosbarth Gwawr yng Nghanolfan Caergylchu yng Nghaernarfon er mwyn dysgu mwy am ailgylchu i greu byd gwell gan mai 'Ein Byd Gwyrdd' yw thema'r dosbarth y tymor hwn.

Pob dymuniad da
Rydym yn falch o gael dymuno

yn dda i ddau o ddisgyblion yr ysgol sef Kai a Chloe. Mae'r ddau wedi llwyddo i fynd i rownd derfynol cystadleuaeth gyfeiriannu a byddant yn mynd i Fachynlleth i gystadlu yn fuan iawn.

Anfon neges i Batagonia bell
Mae disgyblion Dosbarth Awel wedi anfon llythyrau i ddisgyblion mewn ysgol ym Mhatagonia bell er mwyn dysgu mwy am dwristiaeth yn y wlad. Maent yn aros yn eiddgar i glywed gan eu ffrindiau newydd.

Da iawn chi
Llongyfarchiadau i bawb gymerodd ran yn 'Ras am Fywyd' yn ddiweddar – yn cynnwys staff a disgyblion.



Wythnos cerdded i'r ysgol
Diolch i Mrs Nia Hughes am drefnu i griw o ddisgyblion yr ysgol sy'n byw yn Nhalybont

i gerdded i'r ysgol. Braf oedd cyfarfod Carys Ofalus a ddaeth i groesawu'r criw fore Gwener.

Caerhun a Glasinfryn

Marred Glyn Jones, 2 Stryd Fawr,
Glasinfryn, Bangor, LL57 4UP
☎ 01248 351067
marred567@btinternet.com

Merched y Wawr
Llywydd ein cyfarfod nos Fercher Mai 11 oedd Mrs Mair Griffiths. Wedi iddi ein croesawu’n gynnes iawn bu cryn drafod ar y ddau benderfyniad (Resolution) sydd angen i drafod erbyn Mehefin 11 ar gyfer y cyfarfod blynyddol. Roedd gennym ryw deimladau cymysglyd ond daethom i gytundeb.
Cawsom ein hatgoffa gan Mair am y dyddiadau canlynol:
Mehefin 3: Bingo yng Nghanolfan Glasinfryn er budd Ward Alaw Ysbyty Gwynedd.
Mehefin 16: cyfarfod yn Venue Cymru.
Gorffennaf 13: ymweliad â Phlas Cadnant. Wedi mwynhau’r banad a baratowyd gan

Elizabeth ac Ingrid euthum i olrhain hanes y dyddiadau a fu yng nghwmni Mr Gareth Roberts o Antur Fachwen. Ffotograffydd a darlunydd yw Gareth ac mae’n ymddiddori mewn cynllunio mapiau o’r plwyfi lleol.
Bu’r diddordeb gychwyn 13 mlynedd yn ôl ar ôl salwch mawr ac o’r herwydd bu tro ar fyd a bywyd Gareth. Teimlai fod ganddo le i ddiolch i’r meddygon a’r nyrsys am y gofal a’r driniaeth a dderbyniodd yn yr ysbyty ac felly daeth y syniad o gerdded yr hen ffordd Rufeinig o Gaernarfon i Gaer er mwyn codi arian at Sefydliad y Galon Brydeinig (British Heart Foundation). Llwyddodd i godi swm anrhydeddus o £6950. Tipyn o gamp!
Wrth gerdded a sylwi ar y wlad o’i gwmpas daeth y syniad i ben Gareth fod yna gymaint o hanes yn perthyn i’r wahanol ardaloedd beth am fynd ati i lunio map plwy o’i ardal ei hun a fyddai’n adnodd delfrydol i gerddwyr. Dyma gychwyn ar fap Llanddeiniolen. Erbyn heddiw mae Gareth wedi cwblhau 35 o fapiau plwyfi lleol ac rydym ar ddeall y bydd yna fap ar gyfer Pentir ar gael yn o fuan. Edrychwn ymlaen at ei weld!

Prosiect arall ar y gweill ganddo yw dilyn hanes hen reilffordd a chaeau pêl-droed. Mae’r holl wybodaeth ar gael yn siop Antur Fachwen yn Llanberis. Galwch heibio i gael panad yn y caffi a chyfle i astudio holl fapiau’r ardal wrth eich pwysau gan gyfrannu hefyd at achos Antur Fachwen.
Cawsom noson anhygoel yng nghwmni difyr a brwdfrydig Gareth a diolchwyd iddo gan Margaret Owen.
Cofiwch y bydd y cyfarfod mis nesa yn dechrau am 6.30yh.

Llongyfarchiadau!
Llongyfarchiadau i David a Carol Williams, Fferm Tyddyn Heilyn, Caerhun ar ddod yn nain a thaid am y tro cyntaf. Croeso mawr i’w wyres newydd, Mair Pearl Haydn Williams, merch i’w mab Huw Vaughan a’i bartner Esther.
Cyfarfod Blynyddol
Cynhelir Cyfarfod Blynyddol Canolfan Glasinfryn yn y Ganolan nos Lun, 20 Mehefin, am 7.00 o’r gloch.

Ysgol Rhiwlas



Diolch i Mr Setatree am wasanaeth difyr unwaith eto



Ymweliad y Cyfnod Sylfaen i Fferm y Foel



Enillwyr tystysgrif siarter iaith Ysgol Rhiwlas



Enillwyr tystysgrif presenoldeb Ysgol Rhiwlas



Plant meithrin ysgol Rhiwlas wedi bod yn coginio bara yn Tesco Bangor.

CHWILAIR

MWY O FFERMYDD Y PENRHYN 1768

P	A	A	W	F	H	R	I	E	T	Y	G	W	Y	N	J	L	C	M	B
E	V	B	H	X	J	U	I	S	V	S	H	E	I	M	G	V	H	M	D
N	W	C	I	L	G	E	R	A	I	N	T	H	U	Z	M	X	V	A	D
I	D	N	A	P	A	U	Q	U	S	O	F	R	P	Y	Q	Z	G	R	H
S	C	U	C	G	M	W	N	L	O	Y	G	R	L	I	A	S	Z	U	T
A	F	D	A	X	O	U	P	W	L	O	R	L	H	C	Q	H	W	E	H
F	O	Y	E	E	E	I	G	E	D	Y	E	O	M	H	E	P	T	T	C
I	B	B	W	C	U	U	D	A	J	T	S	P	L	T	M	D	I	V	V
R	D	C	E	B	B	F	I	D	Y	R	F	G	O	G	E	J	V	I	I
N	R	R	R	X	I	R	M	R	I	H	T	T	W	O	O	S	K	O	P
A	W	R	N	C	A	M	B	K	N	E	C	B	C	Y	O	R	C	X	V
N	R	Y	H	C	S	W	T	A	M	R	R	Y	E	F	N	Y	J	D	Z
T	H	B	S	C	G	W	W	O	W	S	N	W	C	R	A	T	I	X	N
I	L	E	X	A	J	G	J	R	M	F	B	W	G	T	E	X	M	D	X
K	A	F	N	U	O	P	W	C	E	Q	Y	O	I	T	L	F	E	R	Z
M	Q	R	O	L	C	T	T	C	D	G	W	S	L	Z	N	E	B	E	A
J	K	J	E	C	N	L	N	D	O	L	A	W	E	N	L	A	R	V	O
G	J	P	P	Y	W	P	G	S	O	W	J	J	Q	U	L	F	N	S	V
T	A	X	R	E	U	G	H	S	L	Z	E	A	F	X	I	W	T	Z	H
C	K	B	V	A	G	B	N	K	A	D	S	I	K	O	G	D	H	B	S

Ynysoedd y Baw

(Rhybudd: mae hon yn stori eitha ych-a-fi pe baech yn ei darllen dros swper chwarel)

Diddorol oedd gweld yng ngholofon Dr John Elwyn Hughes, Pwy Sy'n Cofio Ddoe? yn rhifyn mis Mai o Llais Ogwan, nodyn am y Cynghorydd Gwilym Morgan Prichard, ar ran Cyngor Dinesig Bethesda, yn agor gwaith carffosiaeth newydd yn Nôl-Goch ym mis Hydref 1973. Y tu ôl i'r nodyn byr hwnnw, mae 'na hanes diddorol am un o draddodiadau rhyfedd bechgyn Dyffryn Ogwen a ddaeth i ben pan agorwyd y gwaith carthion newydd. Roedd hon yn stori yr oeddwn yn aml yn gorfod ei hail-ddweud yn ystod yr amseroedd cinio yng nglwb (caban!) HTV ers talwm i ddiddanu fy nghydweithwyr.

Pan gefais fy ethol yn un oedd i gynrychioli Ward Gerlan ar Gyngor Dinesig Bethesda, dw i'n cofio llythyr yn dod o'r Swyddfa Gymreig newydd (Swyddfa a ddaeth i rym wedi i Lafur ennill etholiad 1964 a James Griffith (yr Ysgrifennydd Gwladol Cymreig cyntaf) yn rhybuddio'r Cyngor na fyddai caniatâd yn cael ei roi i adeiladu unrhyw beth o faint, fel ffatrioedd newydd, yn yr ardal os na fyddai cynlluniau'n cael eu gwneud i newid y system gwared a charthffosiaeth oedd yn hen ac wedi bod bod yn trin gwastraff pobl Bethesda ers blynnyddoedd lawer.

Roedd y gwaith hwnnw'n ymestyn dros chydig o aceri yn y caeau rhwng yr A5 ger Dôl-Goch ac

afon Ogwen. Roedd y caeau wedi eu gwahanu gan nifer o ffosydd tua llathen o led ac yn gris-croes ar draws y cae ble'r oedd y carthion o holl ardaloedd y dyffryn yn cael eu gollwng. Rhwng y ffosydd hyn, roedd nifer fawr o ynysoedd o dir yn mesur tua deg troedfedd wrth bump troedfedd. Y syniad oedd y byddai'r gwastraff yn symud yn araf deg trwy'r ffosydd ac felly'n cael ei ocsigeneiddio a'i lanhau cyn cyrraedd pen ei daith a chael ei ollwng i afon Ogwen.

Un o arferion hogia'r ardal oedd chwarae chase drwy'r gwaith carffosiaeth i weld pwy fyddai'r cyntaf i redeg a neidio ar draws yr ynysoedd a phwy fyddai'r cyntaf i fynd o un pen i'r llall. Er mwyn ceisio bod yn barchus, dw i wedi disgrifio'r cynllun carthffosiath hwn yn y pennawd fel 'ynysoedd baw' ond, a defnyddio'r ymadrodd lleol oedd yn wybyddus i ni i gyd, 'cachu islands'oedd yr enw cyfarwydd. Roedd yn rhaid dal i redeg a chael balans da i lwyddo i neidio o un ynys i'r llall heb ddisgyn i mewn i'r budreddi dyfrllyd oedd yn aros yn y ffosydd. Dim ond un dw i'n ei gofio'n methu ei gam ac yn disgyn i'r drewdod mawr, ond 'wna i mo'i enwi rhag achosi embaras! Tybed a oes rhai eraill yn cofio'r ynysoedd a'r rasio ar eu traws neu'n cofio ymateb eu mam ar ôl iddynt ddisgyn i'r llysnafedd, ac yn barod i sôn am eu hatgofion yn y Llais.

Wyn Thomas, gynt o'r Ger

Yn y chwilair mis yma mae enw deuddeg Fferm a oedd mewn bodolaeth ar stad y Penrhyn yn y flwyddyn 1768. Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chwi ddod o hyd i'r gweddill? (Mae LL, CH, DD, TH, ayyb yn **un** llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y chwilair dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân).

Atebion gydag enw a chyfeiriad i **Andre Lomozik**, Zakopane, 7 Rhos y Coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd LL57 3NW, erbyn MEHEFIN 30. Bydd gwobr o £10 i'r enw cyntaf allan o'r het. Os na fydd unrhyw un wedi canfod y deuddeg, yna'r rhif agosaf fydd yn cael y wobr.

Nid yw gwasanaeth y post Brenhinol cystal ag yr oedd ar ddechrau'r ganrif ddiwethaf maen amlwg, oherwydd cyrhaeddodd ateb John a Meirwen Hughes o Abergele ddiwrnod yn hwyr, ond roedd eich atebion yn gywir. Felly cofwch bawb, i anfon eich atebion mewn da bryd.

Aeth rywbeth o'i le yn y wasg hefyd y mis diwethaf, gan fod y cliw roeddwn wedi rhoi i chwi ddim yn sefyll allan fel yr arfer. Ond er hynny roedd rhan fwyaf ohonoch wedi darganfod yr atebion cywir, ac eraill wedi dod ar draws lle o'r enw GWYR ac AMROTH.

Y mis yma down yn ôl i blwyfi Llanllechid a Llandegai ac enwau ffermydd Stad y Penrhyn yn y flwyddyn 1768. Pob hwyl wrth grwydro o fferm i fferm.

Dyma atebion Mai:- Aberdaugleddau; Abergwaun; Blaen-Ffos; Bwlch-y-groes; Caerfarchell; Cwm yr Eglwys; Dinbych-y-pysgod; Eglwyswrw; Ffynnon-Groes; Hwlfordd; Pen Cemaes; Ynys Bŷr.

Dyma enwau'r rhai a gafodd yr ateb cywir:- Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Marilyn Jones, Glanffrydlas; Wendy Eccles, Rachub; Mair Jones, Bethesda; Gwenda Roberts, Rhosmeirch; Elfed Bullock, Maes y Garnedd.

Enillydd Mai oedd:- Wendy Eccles, Rynys, Llanllechid, LL57 3ED.

Chwaraeon

Clwb Pêl droed Mynydd Llandygai

Cafwyd bore coffi llwyddiannus iawn yng nghaffi Coed y Brenin ddydd Sadwrn, Mai 28ain. Trefnwyd y bore coffi gan un o gefnogwyr selocaf y clwb, sef Dafydd Pritchard a gwnaethpwyd tua £415.00 yn ystod y bore.

Hoffai'r pwyllgor ddiolch yn fawr i Dafydd, a dyma'i lun

yn cyflwyno tusrw o flodau i Karen a Lynn [y caff] gyda rhai o aelodau'r pwyllgor. Diolch Dafydd!

Canlyniad gem ddiwethaf y tymor oedd Mynydd Llandygai 6 Penmaenmawr 3.

Goliau- Mark Hughes, Lewis Hall, Ben Parker, Liam W. Jamie Whitmore a Ben Owen.

Roedd yn dymor llwyddiannus gyda'r tîm yn gorffen yn bedwerydd yn nhabl y Gynghrair. Cynhaliwyd noson wobrwyo'r tîm yn nhafarn y Bull a diolchwyd i'r holl gyfeillion am y gefnogaeth yn ystod y flwyddyn - ac yn arbennig i Dafydd Pritchard, eu prif gefnogwr.



Sioe Dyffryn Ogwen



Blodau Hyfryd

7 Rhes Buddug, Bethesda
☎ 602112 (gyda'r nos 602767)
Blodau ar gyfer pob achlysur

**Priodasau, Angladdau ayyb
Ffres a Sidan**

Gwasanaeth 'Archebu a Danfon'

Mwy o luniau ac adroddiad o'r sioe mis nesa'.

Ysgol Abercaseg

Diolch i Tesco

Diolch yn fawr iawn i Ffion a staff siop Tesco Bethesda am eu rhodd caredig o adnoddau ysgrifennu a phlanhigion i'r ysgol. Mae'r ardd yn edrych yn hyfryd dan ei newydd wedd a'r plant wrth eu boddau'n cael bod allan yn garddio.



Hyrwyddo Presenoldeb

Penderfynodd y Sgwad Syniadau fynd ati o ddifrif i hyrwyddo presenoldeb yn yr ysgol drwy roi cyflwyniad i'w cyfoedion ynglŷn â sut i olchi eu dwylo'n gywir i sicrhau nad yw germau'n cael eu lledaenu. Yn fuan wedyn buont yn brysur iawn yn dylunio posteri, sydd yn awr yn cael eu harddangos drwy'r ysgol, yn atgoffa pawb o'r angen i yfed dŵr er lles eu hiechyd. Da iawn hwy am fod mor frwdfrydig a meddylgar.



Cadw'n ddiogel ar y ffordd

Ers dechrau'r tymor mae Bethan Parry wedi bod yn dysgu plant Blwyddyn 1 sut i fod yn ddiogel ar y ffordd. Gan fod y dydd yn ymestyn a phlant yn chwarae y tu allan mae'n bwysig eu bod yn ymwybodol o'r peryglon.

Wythnos Iach

Cafwyd wythnos i hyrwyddo bwyta'n iach, meddwl iach a chadw'n heini. Yn ystod yr wythnos bu'r plant yn cwblhau heriau iach adref, yn cadw'n heini ar gae'r ysgol ac i gloi'r wythnos cafwyd prynhawn aur o ddawnsio a blasu ffrwythau.

Ysgol Bodfeurig

Dysgu am gynefinoedd

Cafodd disgyblion dosbarth Tryfan fore bendigedig yn dysgu am greaduriaid y pwll dŵr i fyny yn Ynys Uchaf, Mynydd Llandegai. Fel rhan o'r thema am gynefinoedd cawsom fynd yno i wneud dau weithgaredd gwyb. Yn gyntaf roedd pawb yn cael chwilio am greaduriaid yn y pwll dŵr cyn gwneud gweithdy barddoniaeth gyda'r bardd Martin Daws. Cafodd pawb amser bendigedig. Diolch i Martin, Jenny a Bryan am y croeso cynnes.

Peiriant Sgrech!

Mae dosbarth Ogwen wedi mwynhau eu thema diweddaraf sef Peiriant Sgrech. Mae'n gyfle

i ddysgu am, a chreu peiriannau sgrech! I weld peiriant sgrech drostynt ei hunain aeth pawb am dro i Gelli Gyffwrdd i sgwrsio gyda'r perchennog am 'Y Ddraig Werdd'. Cafodd pawb amser wrth eu bodd am maent wedi bod yn brysur ar ôl dod yn ôl i'r ysgol yn creu reidiau parc antur ei hunain.

Mor Ladron Mynydd

Pe tasech yn mynd am dro heibio'r ysgol yn ddiweddar buasech yn siŵr o gael braw wrth weld pentwr o for ladron yn cael parti! Mae dosbarth Idwal wedi bod yn brysur yn dysgu am Barti Harti y môr leidr ac uchafbwynt y gwaith oedd cael parti mor ladron i ddathlu.

